



# Y PANEL TROSOLWG ANNIBYNNOL AR WASANAETHAU MAMOLAETH

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Adroddiad Cynnydd  
Ebrill 2022

# Rhagair

Ar 30 Ebrill 2019, yn dilyn cyhoeddi adroddiad a oedd yn amlinellu canfyddiadau adolygiad a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd (y Colegau Brenhinol), cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd (y Gweinidog) ei fod yn rhoi'r gwasanaethau mamolaeth yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf mewn 'mesurau arbennig'.

Fel rhan o becyn ehangach o fesurau a luniwyd i gefnogi'i ymyriad, penododd y Gweinidog banel annibynnol (y Panel) i ddarparu'r oruchwyliaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn mynd i'r afael â'r methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol, a hynny mewn modd amserol, agored a thryloyw sy'n sicrhau bod y menywod a'r teuluoedd yr effeithiwyd fwyaf arnynt yn rhan ganolog o'r broses.

Mae'n rhaid i'r Panel gyflwyno adroddiad cynnydd i'r Gweinidog bob chwe mis. Mae'r adroddiad hwn, y chweched adroddiad cynnydd i'w gyhoeddi hyd yma, yn rhoi sylw i'r cyfnod o chwe mis hyd at 31 Mawrth 2022. Mae'n crynhoi'r cynnydd mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud i wella ei wasanaethau mamolaeth a gwasanaethau newyddenedigol. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am agweddau eraill ar raglen waith y Panel. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y cefndir, nac yn ailadrodd y dadansoddiad a'r casgliadau a oedd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau blaenorol, ar wahân i'r hyn sy'n angenrheidiol i roi cyd-destun.

Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, mae'r Gweinidog hefyd yn cyhoeddi'r trydydd mewn cyfres o adroddiadau thematig sy'n deillio o Raglen Adolygiadau Clinigol y Panel. Mae'r adroddiad, sy'n edrych ar y gofal a roddwyd i famau a'u babanod a oedd, gwaetha'r modd, wedi marw neu yr oedd angen gofal newyddenedigol arbenigol arnynt ar ôl eu geni, ar gael ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru.

Mae'n bosibl gweld gwybodaeth arall ar yr un wefan, gan gynnwys adroddiadau cynnydd blaenorol a chylch gorchwyl gwaith y Panel.

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

## Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth



Mae **Mick Giannasi** (Y Cadeirydd) yn Gadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd yn arfer bod yn Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a bu'n Gomisiynydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn. Swyddog heddlu ydoedd wrth ei waith, ac mae'n gyn-Brif Gwnstabl Heddlu Gwent.



Mae **Cath Broderick** (Aelod Lleyg) yn Gymrawd Anrhydeddus o Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, a hi yw awdur yr adroddiad '*Gwrando ar Farn Menywod a Theuluoedd am Ofal Mamolaeth Cwm Taf*'. Mae ganddi brofiad helaeth o ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, a bu'n cynorthwyo gyda gwaith tebyg ym Mae Morecambe.



Mae gan **Alan Cameron** (Arweinydd Obstetreg) dros 27 mlynedd o brofiad fel Obstetregydd Ymgynghorol, a gorffennodd yn ei swydd fel Arweinydd Clinigol Cenedlaethol Obstetreg ar gyfer Grŵp Cydweithredol yr Alban ar Wella Ansawdd Gwasanaethau Mamolaeth a Phlant yn ddiweddar. Ef ydy cynghorydd clinigol y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd.



Mae gan **Christine Bell** (Arweinydd Bydwreigiaeth) dros 31 mlynedd o brofiad o weithio fel Bydwraig yn Lloegr. Treuliodd ddeg o'r blynyddoedd hynny'n Bennaeth Bydwreigiaeth yn un o Ymddiriedolaethau mawr y GIG. Mae ganddi brofiad helaeth mewn rheoli newid a thrawsnewid gwasanaethau.



Mae gan **Kelly Harvey** (Arweinydd Nyrsio Newyddenedigol) dros 19 mlynedd o brofiad fel Nyrs y Newydd-anedig ac Uwchymarferydd Nyrs y Newydd-anedig. Ar hyn o bryd mae'n Uwchnyrs ar gyfer Rhwydwaith Gofal Newyddenedigol Gogledd-orllewin Lloegr. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Nyrsys y Newydd-anedig.



Mae gan **Alan Fenton** (Arweinydd Neonatoleg) dros 27 mlynedd o brofiad fel Neonatolegydd Ymgynghorol, ac mae'n gyn-Lywydd Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain. Alan oedd y Neonatolegydd yn nhîm craidd yr Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth yn 2016 (Better Births), ac mae wedi bod yn rhan o raglen gydweithiol MBRRACE-UK ers 2018.

## Crynodeb Gweithredol

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Medi 2021, dywedodd fod y Bwrdd Iechyd, er gwaethaf heriau parhaus pandemig COVID-19, mewn perthynas â'r gwasanaeth mamolaeth, yn gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion ar gyfer gwella a nodwyd yn adroddiad y Colegau Brenhinol. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd, yn enwedig o ran mynd i'r afael â rhai o'r anghenion datblygu tymor hwy sy'n gysylltiedig â diwylliant, arweinyddiaeth, gweledigaeth a strategaeth y sefydliad.

Tynnodd y Panel sylw hefyd at y ffaith bod natur taith tuag at welliant y Bwrdd Iechyd yn newid, gan symud i ffwrdd o ffocws ar systemau a phrosesau tuag at ddull trawsnewidiol tymor hwy a luniwyd i sicrhau bod y gwasanaeth yn addas i'r diben ac yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Dywedodd y Panel y byddai hyn yn gofyn am addasiadau i'r ffordd y mae'n asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd, gan symud i ffwrdd o argymhellion y Colegau Brenhinol fel y prif ddangosydd tuag at ddull ehangach a mwy cyfannol, sy'n seiliedig ar asesu cynnydd yn erbyn cynllun cerrig milltir, 'map' a gweledigaeth a strategaeth pum mlynedd sy'n cael eu datblygu drwy ymgysylltu â staff, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau.

Fodd bynnag, bryd hynny nodwyd rhai materion mewn perthynas â'r gwasanaeth newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a oedd wedi arwain at gomisiynu adolygiad 'manwl' ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd. Bryd hynny, roedd yr adolygiad wedi cael ei ddechrau a rhai materion cynnar wedi cael eu nodi a allai effeithio ar ddiogelwch y gwasanaeth; cafodd y rhain eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru er mwyn gweithredu ar unwaith.

Dros y chwe mis diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i wneud mwy o gynnydd graddol mewn perthynas â'i wasanaeth mamolaeth, ac mae'r trefniadau rheoli rhaglenni sydd wedi cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r broses wella ehangach wedi cael eu cryfhau ymhellach.

Gwelwyd cynnydd calonogol hefyd mewn perthynas ag ansawdd y trefniadau goruchwylio a chraffu a ddarperir gan y Bwrdd i'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae rhai cerrig milltir pwysig hefyd wedi cael eu cyflawni, gan gynnwys cwblhau'r rhaglen waith sy'n cael ei gwneud gyda chymorth Uned Gyflawni'r GIG (Cymru) i wella prosesau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol a dysgu ohonynt.

Ddiwedd mis Chwefror, cynhaliodd y Panel 'ymweliad sicrwydd' ar draws tri safle'r Bwrdd Iechyd, gan gwrdd wyneb yn wyneb â staff ac uwch reolwyr ac adolygu tystiolaeth o gynnydd pellach. Roedd pob un o'r chwe aelod o'r Panel wedi cymryd rhan, gan roi cyfle i edrych yn fanwl ar y sefyllfa bresennol. Roedd hyn yn cynnwys ymweld â wardiau ac arsylwi ar weithgareddau allweddol gan gynnwys trosglwyddiadau a rowndiau ward.

Mae canlyniadau'r ymweliad sicrwydd wedi'u nodi'n fanylach yn Adran 2.2 o'r adroddiad, ond, i grynhoi, roedd yr ymweliad yn dangos yn glir bod y gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud yn y gwasanaeth mamolaeth dros y tair blynedd diwethaf wedi cael eu cyfuno a'u bod bellach yn cael eu gwreiddio fwyfwy yn yr ymarfer.

Nododd yr ymweliad sicrwydd hefyd fod cynnydd pellach wedi'i wneud yn erbyn nifer o'r argymhellion sy'n weddill gan y Colegau Brenhinol a'u bod bellach wedi cyrraedd y pwynt lle mae'r Panel yn credu bod cynllun gweithredu gwreiddiol y Colegau Brenhinol bron yn barod i'w gau. Mae angen bwrw ymlaen â rhai camau gweithredu etifeddol o hyd ac mae rhai o'r rheini'n sylweddol eu natur; fodd bynnag, erbyn hyn gellir adlewyrchu'r materion hynny'n fwy priodol yn y cynllun cerrig milltir sydd wedi cael ei ddatblygu i gefnogi'r gwaith o wella'r gwasanaeth yn y tymor hwy.

Ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru, mae'r Panel wedi datblygu Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF) sy'n defnyddio cyfres o fatricsau er mwyn adrodd ar hunanasesiad y Bwrdd Iechyd o wasanaethau dros amser.

Mae'r fframwaith yn defnyddio gwybodaeth ansoddol a meintiol i ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn cyfres o ddisgrifyddion a phum lefel o gynnydd sy'n amrywio o sylfaenol, drwy gynnydd cynnar a chanlyniadau i aeddfedrwydd a statws enghreifftiol. Mae aeddfedrwydd, sef dyhead presennol y Bwrdd Iechyd, yn disgrifio gwasanaeth sy'n perfformio yn unol â disgwyliadau ar y cyfan, er bod ganddo rai anghenion datblygu parhaus.

Dros y misoedd diwethaf, mae'r broses IPAAF wedi datblygu i roi mwy o bwyslais ar sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn asesu ei gynnydd ei hun yn erbyn y matricsau aeddfedrwydd, gyda'r Panel yn adolygu'r asesiad ac yn cefnogi lle bo hynny'n briodol.

Ym mis Ebrill 2022, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd hunanasesiad yn erbyn yr IPAAF ac fe ddaeth i'r casgliad, mewn perthynas â'r meysydd 'Gofal Diogel ac Effeithiol' ac 'Ansawdd Profiadau Menywod', fod y gwasanaeth mamolaeth wedi cyrraedd 'Aeddfedrwydd', tra bod y maes 'Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth' wedi aros yn y cam 'Canlyniadau' er ei fod yn nesáu at 'Aeddfedrwydd'. O ran y gwasanaeth newyddenedigol, daeth y Bwrdd Iechyd i'r casgliad bod y gwasanaeth yn gwneud 'Cynnydd Cynnar' ym mhob un o'r tri maes.

Mae'r Panel wedi adolygu hunanasesiad y Bwrdd Iechyd ac yn cytuno ei fod yn asesiad rhesymol a gwrthrychol o'r sefyllfa bresennol. Bydd canlyniadau'r hunanasesiad yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Bwrdd yn ystod ei gyfarfod cyhoeddus ym mis Mai ac felly byddant yn amodol ar gadarnhad.

Mae'r newid o 'Canlyniadau' i 'Aeddfedrwydd' yn y meysydd Gofal Diogel ac Effeithiol ac Ansawdd Profiadau Menywod yn garreg filltir bwysig i'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'i wasanaethau mamolaeth. Yn syml, mae hyn yn dangos bod y gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu'n gyffredinol i'r safonau a ddisgwyllir gan wasanaeth mamolaeth sy'n gweithredu ar y lefel hon o fewn system iechyd y DU.

Nid yw hynny'n golygu nad oes mwy o waith i'w wneud; yn wir, mae gan bob gwasanaeth anghenion datblygu parhaus. Fodd bynnag, mae'n dangos bod modd cymharu'r Bwrdd Iechyd erbyn hyn â rhai eraill yng Nghymru yn y meysydd penodol hynny ac mewn rhai ardaloedd, yn enwedig mewn perthynas â rhai agweddau ar ei waith o ran ymgysylltu â menywod a theuluoedd, efallai ei fod bellach yn gosod safonau i eraill eu dilyn.

Mae'r ffaith bod yr asesiad aeddfedrwydd ar gyfer y gwasanaeth newyddenedigol yn parhau ar y cam "Cynnydd Cynnar" ym mhob un o'r tri maes yn adlewyrchu'r ffaith bod y gwasanaeth ar gam gwahanol iawn yn ei daith tuag at welliant na'r gwasanaeth mamolaeth.

Mae'r Panel yn cydnabod bod datblygiadau cadarnhaol wedi cael eu gwneud ym mhob un o'r 19 maes a nodwyd gan yr adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol fel rhai y mae angen gweithredu arnynt ar frys, gyda gwaith paratoi wedi'i gwblhau a rhai canlyniadau cynnar wedi'u cynhyrchu. Fodd bynnag, mae'r Panel wedi dod i'r casgliad mai dim ond pump o'r 19 maes i'w gwella ar unwaith y gellir eu hystyried fel rhai sydd wedi'u cwblhau'n llawn a'u gwreiddio'n llawn mewn ymarfer ar hyn o bryd.

Roedd y Panel yn gobeithio, erbyn hyn, y byddai mwy o dystiolaeth yn cael ei gweld o gynnydd pendant yn erbyn yr argymhellion a oedd wedi deillio o'r adolygiad manwl ac yn enwedig y rhai yr oedd angen gweithredu arnynt ar unwaith. Wedi dweud hynny, mae'r Panel yn cydnabod bod heriau gweithredol sylweddol a pharhaus wedi bod yn y gwasanaeth newyddenedigol dros y chwech i wyth mis diwethaf sydd wedi effeithio ar allu'r gwasanaeth i ryddhau staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwella.

Mae pryderon y Panel ynghylch cyflymder y cynnydd wedi cael eu codi, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn rhannu'r pryderon hynny. Maent wedi cael eu derbyn yn adeiladol, ac mae ymrwymiad i gyflymu'r ddarpariaeth dros y misoedd nesaf wrth i gapasiti ychwanegol fod ar gael.

O ystyried y cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, mae'r Panel yn credu, os bydd y sefyllfa'n datblygu yn unol â'r disgwyl dros y chwe mis nesaf, y dylai'r Panel fod mewn sefyllfa pan fydd yn cyflwyno'i adroddiad nesaf ym mis Medi 2022 i roi asesiad i'r Gweinidog ynghylch a yw'n credu bod taith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant yn gynaliadwy. Bydd hynny wedyn yn galluogi'r Gweinidog, petai'n dymuno, i ystyried beth sy'n angenrheidiol o ran goruchwyliaeth allanol barhaus yn y dyfodol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae teithiau'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol tuag at welliant ar gamau gwahanol, yn rhannol oherwydd y ffocws cychwynnol ar y meysydd 'gwneud yn ddiogel' hynny yn y gwasanaethau mamolaeth a nodwyd gan y Colegau Brenhinol. Felly, mae'n annhebygol y bydd yr holl waith sydd ei angen i wella'r gwasanaeth newyddenedigol i'r safon ofynnol yn cael ei gwblhau yn ystod y chwe mis nesaf. Mae'n amlwg hefyd o'r adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol y bydd yn cymryd cryn amser i nifer o'r gwelliannau gofynnol ddangos canlyniadau llwyddiannus.

Wedi dweud hynny, mae'r Panel yn credu y gellir gwneud digon o gynnydd erbyn yr Hydref os yw'r dull gweithredu sydd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus gan y Bwrdd Iechyd i wella ei wasanaeth mamolaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaeth newyddenedigol. Mae hefyd yn credu bod y cynllun gweithredu manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol a luniwyd i gefnogi'r Bwrdd Iechyd i fwrw ymlaen â'r gwelliannau angenrheidiol yn rhoi arweiniad clir ar yr hyn y byddai angen ei roi ar waith er mwyn i unrhyw feysydd sy'n weddill gael eu dilysu drwy unrhyw asesiad yn y dyfodol.

## Cynnwys

1	Y Daith Hyd Yma.....	1
1.1	Y Sefyllfa ym mis Medi 2021 .....	1
1.2	Rhoi'r Cyfnod Adrodd Presennol yn ei Gyd-destun.....	2
1.3	Ffocws ar Gynaliadwyedd .....	3
2	Asesu Cynnydd y Bwrdd Iechyd.....	5
2.1	Cynlluniau Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol .....	5
2.2	Ymweliad Sicrwydd .....	7
2.3	Ymgysylltu â'r Staff .....	9
2.4	Ymgysylltu â Rhanddeiliaid .....	11
2.5	Asesiad Presennol yn erbyn Matrics Aeddfedrwydd yr IPAAF .....	12
2.5.1	Gwasanaethau Mamolaeth.....	14
2.5.2	Gwasanaethau Newyddenedigol .....	15
2.5.3	Adolygiad y Panel.....	16
2.5.4	Beth Mae Hyn yn ei Olygu?.....	16
2.6	Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol.....	17
2.7	Cyflawni Argymhellion y Colegau Brenhinol.....	18
3	Gwella'r Gwasanaethau Newyddenedigol.....	21
3.1	Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol.....	21
3.2	Asesu Camau Brys .....	22
3.3	Y Camau Nesaf.....	24
4	Y Rhaglen Adolygiadau Clinigol.....	25
4.1	Trosolwg o'r golwg yn ôl 2016-2018.....	25
4.2	Categoriâu Mamolaeth a Marw-enedigaethau .....	26
4.3	Categori Newyddenedigol .....	27
4.4	Hunanatgyfeiriadau .....	27
4.5	Digwyddiadau Difrifol ers mis Hydref 2018 .....	28



4.6	Golwg yn ôl cyn-2016.....	29
4.7	Cau'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol.....	31
5	Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd.....	32
5.1	Datblygiadau ym maes Ymgysylltu a Chyfathrebu .....	32
5.2	Camau Nesaf y Daith Ymgysylltu.....	33
5.3	Cwynion a Phryderon.....	35
6	Y Camau Nesaf ac Argymhellion .....	36
6.1	Sicrhau Gwelliant Cynaliadwy.....	36
6.2	Rhaglen Cymorth Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol.....	37
6.3	Argymhelliad .....	38
7	Atodiad A – Atodlen o Argymhellion ‘Agored’ y Colegau Brenhinol .....	39
8	Atodiad B – Atodlen o Argymhellion ‘Dilydol’ y Colegau Brenhinol .....	43
9	Atodiad C – Cynnydd yn Erbyn Camau Brys yr Adolygiad Manwl o’r Gwasanaeth Newyddenedigol.....	46
10	Atodiad D – Map y Bwrdd Iechyd ar gyfer Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol.....	54
11	Atodiad E – Amodau ar gyfer Cynaliadwyedd .....	55
12	Rhestr Termau .....	56

# 1 Y Daith Hyd Yma

## 1.1 Y Sefyllfa ym mis Medi 2021

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Medi 2021, fe ddaeth i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd, er gwaethaf heriau parhaus pandemig COVID-19, mewn perthynas â'i wasanaethau mamolaeth, yn gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion ar gyfer gwella a nodwyd yn adroddiad y Colegau Brenhinol.

Bryd hynny, roedd 55 o 70 o argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael eu cyflawni, er bod angen monitro deg ohonynt yn barhaus er mwyn sicrhau bod y gwelliannau a oedd wedi cael eu gwneud yn cael eu gwreiddio yn yr ymarfer ac yn parhau i gael effaith gadarnhaol.

Er ei fod yn cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, pwysleisiodd y Panel fod yr argymhellion yr oedd y gwasanaeth mamolaeth wedi'u cyflawni hyd at y pwynt hwnnw yn rhai o natur weithrediadol gan mwyaf; roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw'n ymwneud â gwelliannau yn y systemau, y prosesau a'r gweithdrefnau yr oedd angen eu rhoi ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn ddiogel ac yn effeithiol, yn cael ei arwain yn dda, yn cael ei reoli'n dda ac yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.

Dywedodd y Panel fod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y gwelliannau hynny'n gynaliadwy, ac y byddai hyn yn golygu newid i ddull mwy trawsnewidiol, yn enwedig i fynd i'r afael â rhai o'r anghenion datblygu mwy heriol a thymor hwy sy'n gysylltiedig â diwylliant, arweinyddiaeth a strategaeth y sefydliad.

Eglurodd y Panel hefyd y byddai angen gwneud rhai addasiadau o ran sut mae cynnydd y Bwrdd Iechyd yn cael ei asesu oherwydd y ffordd yr oedd y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yn datblygu. Roedd hyn yn golygu symud i ffwrdd o argymhellion y Colegau Brenhinol fel y prif ddangosydd cynnydd tuag at ddull ehangach a mwy cyfannol sy'n seiliedig ar asesu cynnydd drwy adroddiadau misol ar y prif bwyntiau yn erbyn cynllun cerrig milltir, 'map' a'r IPAAF y cytunwyd arno ar y cyd.

Bryd hynny, roedd hunanasesiad y Bwrdd Iechyd o'r cynnydd yn erbyn yr IPAAF yn dangos bod pob un o'r tri maes mamolaeth (Gofal Diogel ac Effeithiol, Ansawdd Profiadau Menywod, ac Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth) yn bendant yn y cam 'Canlyniadau' gyda nifer o agweddau'n nesáu at 'Aeddfedrwydd'. Roedd y Panel wedi adolygu'r asesiad hwnnw ac yn cefnogi casgliadau'r Bwrdd Iechyd yn llawn.

Ni chafodd hunanasesiad yr IPAAF ei gwblhau ar gyfer y gwasanaeth newyddenedigol bryd hynny am nad oedd yr adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol, a gomisiynwyd ar y cyd gan y Panel a'r Bwrdd Iechyd yn gynharach y flwyddyn honno, wedi'i gwblhau'n llawn.

Fodd bynnag, fe wnaeth y Panel roi diweddariad ar gynnydd yr adolygiad manwl pan gyflwynodd ei adroddiad diwethaf a thynnodd sylw at y ffaith bod rhai materion wedi'u nodi mewn perthynas â gwasanaeth newyddenedigol Ysbyty'r Tywysog Siarl a allai effeithio ar ddiogelwch. Roedd y rhain wedi cael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru i'w gweithredu ar unwaith ac roedd y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw.

Yn y cyfamser, mae'r adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol wedi cael ei gwblhau, a chyhoeddodd y Gweinidog adroddiad a oedd yn nodi canfyddiadau ac argymhellion y Panel ym mis Chwefror 2022. Gellir gweld yr adroddiad yn y fan [yma](#).

### **Mae Adran 3 yn cynnwys rhagor o fanylion am y cynnydd cynnar sy'n cael ei wneud o ran gwella gwasanaethau newyddenedigol.**

Mewn adroddiadau cynnydd blaenorol, nododd y Panel gyfres o'r camau nesaf i roi ffocws i'r Bwrdd Iechyd yn ystod y cyfnod adrodd dilynol. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull mwy strwythuredig o reoli rhaglenni, pan gyflwynodd ei adroddiad ym mis Medi 2021, dywedodd y Panel nad yw'n angenrheidiol mwyach creu disgwyliadau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai y cytunwyd arnynt eisoes a'u cynnwys yng nghynllun cerrig milltir y Bwrdd Iechyd.

## **1.2 Rhoi'r Cyfnod Adrodd Presennol yn ei Gyd-destun**

Er nad yw effaith uniongyrchol pandemig COVID-19 efallai wedi ymddangos mor arwyddocaol yn ystod y cyfnod adrodd presennol ag yr oedd yn ystod y 18 mis blaenorol, mae'n bwysig cydnabod y pwysau gweithredol parhaus sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, yn enwedig o ran cyflawni ei raglen frechu, sefydlu ei raglen adfer ar ôl COVID-19, ac ymateb i'r galw parhaus ar ei wasanaethau rheng flaen drwy gyfnod anodd ac estynedig y gaef.

Mae absenoldeb oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â COVID-19 hefyd wedi parhau i effeithio'n sylweddol ar gyflymder y cynnydd o ran cyflawni cynlluniau gwella'r Bwrdd Iechyd; mae adegau wedi bod dros y chwe mis diwethaf pan fu'n rhaid i staff sy'n ymwneud â gweithgareddau gwella ddychwelyd i ddyletswyddau rheng flaen er mwyn rhoi help llaw i'w cydweithwyr gweithredol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir yn y gwasanaeth newyddenedigol, sydd wedi cael ei daro'n galed gan absenoldebau oherwydd salwch tymor byr.

Er gwaethaf yr heriau hynny, a chyda chefnogaeth y timau gwella penodol, mae clinigwyr rheng flaen, rheolwyr gweithredol ac uwch arweinwyr y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio ac ymgysylltu â'r gwaith o hybu gwelliannau yn y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Ar yr un pryd, mae Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd wedi parhau i graffu a herio'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, gan sicrhau goruchwyliaeth fwyfwy effeithiol ar lefel y Bwrdd o'r daith tuag at welliant.

Ar y cyfan, mae'r Panel wedi parhau i weithio ar sail rithwir. Fodd bynnag, cynhaliwyd ymweliad sicrwydd ar y safle dros dri diwrnod ddiwedd mis Chwefror 2022. Roedd hyn yn cynnwys pob un o chwe aelod y Panel ac yn gyfle da i archwilio'r sefyllfa bresennol yn fanwl. Roedd yr ymweliad sicrwydd yn cynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda staff rheng flaen a rheolwyr gweithredol, ymweliadau â wardiau yn nhri safle ysbyty'r Bwrdd Iechyd ac arsylwi ar weithgareddau allweddol fel trosglwyddiadau, rowndiau ward a sesiynau hyfforddi.

### **Mae Adran 2 yn cynnwys canlyniad yr ymweliad safle a gwybodaeth fanwl am asesiad cyfredol o gynnydd y Panel.**

Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau parhaus COVID-19 yn yr amgylchedd clinigol, nid oedd yn bosibl i'r Panel gwrdd â defnyddwyr gwasanaethau yn ystod yr ymweliadau safle. Fodd bynnag, mae Aelod Lleyg y Panel wedi parhau i ymgysylltu â'r Fforwm My Maternity My Way a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

### **Mae Adran 5 yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ddull y Bwrdd Iechyd o ymgysylltu â menywod a theuluoedd.**

Mae'r gwaith o gyflawni Rhaglen Adolygiadau Clinigol y Panel, sy'n archwilio'n bennaf y gofal mamolaeth a newyddenedigol a ddarparwyd gan gyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf rhwng 01 Ionawr 2016 a 30 Medi 2018, wedi parhau yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, mae'r Panel yn cyhoeddi ei [Adroddiad Thematic Categori Newyddenedigol](#) sy'n ystyried y gofal a roddwyd i famau a'u babanod a oedd, gwaetha'r modd, wedi marw neu yr oedd angen gofal newyddenedigol arbenigol arnynt ar ôl eu geni.

### **Mae Adran 4 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y Rhaglen Adolygiadau Clinigol, gan gynnwys y ffordd mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol.**

## **1.3 Ffocws ar Gynaliadwyedd**

Pwysleisiodd adroddiad cynnydd diwethaf y Panel y ffaith bod natur taith tuag at welliant y Bwrdd Iechyd yn newid, gan symud i ffwrdd o ffocws ar systemau a phrosesau tuag at ddull trawsnewidiol tymor hwy a luniwyd i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn addas i'r diben ac yn gynaliadwy. Ar yr un pryd, gwelwyd bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd mwy o reolaeth uniongyrchol dros gyfeiriad y daith tuag at welliant ac yn sicrhau bod staff rheng flaen yn cymryd mwy o berchenogaeth dros y rhaglen ac yn ei hintegreiddio yn y gwasanaethau o ddydd i ddydd.

Mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd, mae'r Panel nawr wedi cytuno ar set o amodau neu amgylchiadau a fydd, ar ôl eu cyflawni, yn rhoi sicrwydd rhesymol bod y gwelliannau y mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i'w gwneud yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Mae'r 'amodau ar gyfer cynaliadwyedd' hyn yn cyd-fynd yn agos â chynllun cerrig milltir y Bwrdd Iechyd ac mae'r Panel yn credu, os yw'r cynllun yn cael ei gyflawni yn ôl y bwriad ac yn unol â'r amserlenni a bennwyd, y dylai'r rhan fwyaf o'r amodau fod ar waith yn ystod y chwech i naw mis nesaf. Dylai hyn olygu bod modd trosglwyddo i ddull 'busnes fel arfer' yn y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol erbyn i'r Panel gyflwyno ei adroddiad nesaf ym mis Medi 2022. Dylai hefyd alluogi'r Panel i roi cyngor i'r Gweinidog o ran y graddau y mae angen goruchwyliaeth allanol barhaus.

**Mae'r amodau ar gyfer cynaliadwyedd yn cael eu trafod yn Adran 6. Fodd bynnag, drwy gydol yr adroddiad hwn maen nhw wedi cael eu hamlygu mewn blychau piws sy'n cyd-fynd â'r meysydd gwaith y maent yn perthyn iddynt.**

## 2 Asesu Cynnydd y Bwrdd Iechyd

I baratoi ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r Panel wedi casglu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn darparu asesiad gwrthrychol o gynnydd y Bwrdd Iechyd dros y chwe mis diwethaf, ac yn fwy cyffredinol dros y tair blynedd ers i adroddiad y Colegau Brenhinol gael ei gyhoeddi. Mae'r ffynonellau gwybodaeth allweddol yn cynnwys:-

- adolygiadau o dystiolaeth ddogfenol;
- arsylwi cyfarfodydd gweithredol a chyfarfodydd sy'n gysylltiedig â llywodraethu;
- ymgysylltu â staff;
- ymweliadau sicrwydd ar safle;
- siarad â menywod a theuluoedd;
- arddangosfeydd gwella;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn yr IPAAF.

Mae'r dystiolaeth hon wedi cael ei gwerthuso a'i thriogli yn erbyn ffynonellau gwybodaeth eraill a ddarparwyd gan randdeiliaid allanol, ac mae casgliadau'r Panel wedi'u nodi yn y paragraffau canlynol.

### 2.1 Cynlluniau Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol

Dros y 18 mis diwethaf, mae trefniadau rheoli rhaglenni'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'n sylweddol, ac maen nhw bellach yn cael eu harwain gan Gyfarwyddwr Rhaglen penodol sydd â phrofiad helaeth o reoli rhaglenni newid trawsnewidiol ar lefel gorfforaethol. O ganlyniad, mae ffocws parhaus erbyn hyn ar ganlyniadau ac elfennau i'w cyflawni, gyda'r cynlluniau'n canolbwyntio ar welliannau cynaliadwy tymor hwy, wedi'u hategu gan amserlenni clir.

Mae 'map' y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwella'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol wedi'i gynnwys yn Atodiad D. Mae'n rhoi trosolwg o'r daith tuag at welliant ac yn amlygu'r newid o ddull gweithredu sy'n cael ei arwain gan y tîm gwella i ddull a fydd yn cael ei wreiddio fwyfwy mewn strwythurau gweithredol arferol.

Mae'r cerrig milltir y mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio'u cyflawni wedi'u gosod yn erbyn y tri pharth a ddisgrifir yn yr IPAAF: (i) Gofal Diogel ac Effeithiol; (ii) Ansawdd Profiadau Menywod; ac (iii) Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Mae gan bob parth arweinydd penodol sy'n adrodd i'r Gyfarwyddwr Gwella.

Cyrhaeddwyd nifer o gerrig milltir pwysig yn ystod y cyfnod adrodd hwn; dyma rai enghreifftiau ohonynt:-

- cafodd Fframwaith Sicrwydd Mamolaeth a Newyddenedigol ei ddatblygu a'i gymeradwyo fel drafft gweithio, sy'n egluro sut mae materion yn cael eu huwchgyfeirio o'r 'llawr i'r Bwrdd' ac yn dangos llif cyfathrebu drwy bob lefel o'r strwythur llywodraethu;

- mae arolwg diwylliant staff wedi'i gwblhau ac mae'r adborth wedi cael ei ddefnyddio i lunio Rhaglen Datblygu Diwylliant ac Arweinyddiaeth a fydd yn dechrau cael ei chyflwyno ar draws y gwasanaeth yn ystod y cyfnod nesaf;
- cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a staff, ac mae'r adborth a gafwyd wedi cael ei ddatblygu a'r themâu wedi cael eu nodi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Weledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth ymhellach;
- mae tudalen we ryngweithiol y gwasanaethau mamolaeth ar gyfer y cyhoedd a staff mewnol wedi cael ei lansio, sy'n golygu bod modd cyfathrebu'n fwy effeithiol â staff a rhoi gwybodaeth glir i ddarpar ddefnyddwyr gwasanaethau.

Yn ogystal â'r datblygiadau hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd nifer o gerrig milltir pwysig eraill dros y pedair i chwe wythnos nesaf, ac mae'r Panel yn credu y bydd y rhain yn cynnal momentwm yn y rhaglen wella wrth symud ymlaen. Mae hyn yn cynnwys:-

- datblygu ton gyntaf y 'dangosfwrdd' data mamolaeth sy'n darparu gwybodaeth allweddol am ansawdd a diogelwch y gwasanaeth;
- sefydlu dull Gwella Ansawdd a chynllun cysylltiedig i fwrw ymlaen â hyn ar y cyd ar draws y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol;
- datblygu dangosfwrdd ymgysylltu a phrofiad;
- cwblhau cynllun arweinyddiaeth diwylliant a datblygiad.

Mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd nawr yn canolbwyntio'n glir ar symud y tu hwnt i argymhellion y Colegau Brenhinol i ddull mwy deinamig a pharhaus o wella sy'n defnyddio methodoleg Gwella Ansawdd i sicrhau newid yn raddol, a hynny'n fesuradwy ac yn gynaliadwy.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Gwella Ansawdd**

Mae dull gwella ansawdd ar waith sy'n cyd-fynd â'r trefniant iCTM corfforaethol; mae cynllun gwella ansawdd a phrosiectau gwella ansawdd ar waith ac mae tystiolaeth bod mân newidiadau graddol yn cael eu cyflawni.

Erbyn hyn, mae proses gadarn ar waith dan arweiniad y Bwrdd Iechyd er mwyn rheoli'r broses o wella'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Adroddir ynghylch cyrraedd (neu beidio â chyrraedd) cerrig milltir allweddol drwy'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Adroddir hefyd ynghylch risgiau a metrigau ar lefel y rhaglen drwy'r dull hwn. Mae hyn yn galluogi'r sefydliad i gadw golwg glir ar sut mae'r rhaglen wella'n gweithio, beth sydd eto i'w wneud a pha heriau all godi dros yr wythnosau nesaf. Er bod y risg ar i lawr, y risg fwyaf o hyd yw'r oedi o ran cynnydd a/neu'r oedi wrth i'r Panel gael sicrwydd o gynnydd o ganlyniad i'r ymateb i COVID-19.

Mae'r Panel yn credu bod y strwythurau rheoli rhaglenni presennol yn adnodd hanfodol a fydd yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y gwelliannau sy'n cael eu cyflawni yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Rheoli'r Rhaglen**

Mae strwythur rheoli rhaglenni effeithiol ar waith sy'n diffinio amcanion y gwaith gwella, ac mae ganddo gynlluniau sy'n dangos sut mae'r gwaith yn cael ei gyflawni a pha rwystrau allai effeithio ar eu cyflawni neu ar y canlyniadau; mae trefniadau adrodd effeithiol, agored a thryloyw yn perthyn i'r strwythur, gyda goruchwyliaeth effeithiol gan y Bwrdd.

Dros y chwe mis diwethaf, mae'r Panel wedi arsylwi nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac wedi gweld gwelliannau sylweddol yn ansawdd a chywirdeb y papurau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol. Ar ben hynny, mae ansawdd yr her a'r craffu a ddarperir erbyn hyn gan yr Aelodau Annibynnol wedi cynnig sicrwydd pellach bod lefel briodol o oruchwyliaeth gorfforaethol bellach ar waith.

Bydd hwn yn ffactor allweddol o ran sicrhau bod y gwelliannau sy'n cael eu gwneud yn rhan annatod o'r ymarfer ac yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Llywodraethu Corfforaethol**

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn goruchwyllo ac yn craffu'n effeithiol ar y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, ac mae'n gwneud hynny'n gyson.

## **2.2 Ymweliad Sicrwydd**

Ddiwedd mis Chwefror 2022, cwblhaodd y Panel 'ymweliad sicrwydd' dros dri diwrnod â'r Bwrdd Iechyd, gan adeiladu ar ymarfer tebyg a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2021. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, oherwydd bod cyfyngiadau COVID-19 wedi cael eu llacio'n ddiweddar, roedd modd i bob un o chwe aelod y Panel fod yn bresennol ac ymwelwyd â phob un o'r tri safle, gan gynnwys Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Roedd yr ymweliad yn galluogi'r Panel i asesu pa gynnydd pellach oedd wedi cael ei wneud yn ystod y naw mis a aeth heibio ac i gadarnhau a oedd y gwelliannau yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi adrodd amdanynt dros y ddwy flynedd diwethaf wedi cael eu cyflawni 'ar lawr gwlad'. Roedd hefyd yn helpu i wneud y Panel yn weladwy, ac yn gyfle i staff rheng flaen ymgysylltu â nhw a rhannu eu barn am y gwasanaeth os oeddent yn dymuno gwneud hynny.



Roedd yr ymweliad sicrwydd hefyd yn gyfle gwerthfawr i adolygu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran cyflawni yn erbyn argymhellion y Colegau Brenhinol. Yn yr un modd, roedd yn gyfle i arweinwyr newyddenedigol y Panel ymweld ag unedau babanod newydd-anedig Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Tywysoges Cymru am y tro cyntaf ac ymgysylltu'n uniongyrchol â staff rheng flaen.

Roedd hyn wedi galluogi'r Panel i gael dealltwriaeth uniongyrchol o'r cynnydd cynnar sydd wedi cael ei wneud yn erbyn argymhellion yr adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol, yn ogystal â meithrin cysylltiadau â chlinigwyr a rheolwyr gwasanaethau a fydd yn cefnogi'r gwaith o barhau i ddarparu'r ymyriadau a awgrymir gan y Panel yn y dyfodol.

Cafodd yr ymweliad sicrwydd ei arwain gan y Bwrdd Iechyd a'i gynllunio i ddangos tystiolaeth o gynnydd yn erbyn argymhellion y Colegau Brenhinol nad oedd eto wedi'u cadarnhau gan y Panel neu yr oedd angen gwaith pellach arnynt, yn ogystal â dangos cynnydd cynnar o ran mynd i'r afael â'r argymhellion sydd wedi deillio o'r adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol. Roedd y rhaglen yn cynnwys sgysiau unigol a grŵp, arsylwadau, rowndiau ward a sesiynau galw heibio.

Roedd yr ymweliad sicrwydd yn ymarfer hynod werthfawr a llawn gwybodaeth, ac fe wnaeth alluogi'r Panel i ddod i'r casgliadau canlynol:-

- mae'r cynnydd a welwyd yn ystod yr ymweliad blaenorol ym mis Gorffennaf 2021 wedi cael ei atgyfnerthu, ac adeiladwyd arno;
- gwnaethpwyd cynnydd pellach yn y gwasanaeth mamolaeth, er bod y rheolwyr a'r staff rheng flaen yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd;
- roedd y rhan fwyaf o'r staff yr oedd y Panel wedi cwrdd â nhw yn ymroddedig, yn frwdfrydig ac yn awyddus i wella a newid;
- mae ymdeimlad newydd a rennir o gyfeiriad strategol - mae unigolion allweddol bellach yn gallu cyfleu cynlluniau gwella i'r dyfodol yn gliriach nag o'r blaen ac egluro sut mae'r rhaglen wella'n dod yn fwyfwy 'busnes fel arfer';
- mae staff ar safleoedd Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Tywysoges Cymru yn dechrau gweithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd ac mae tystiolaeth glir eu bod yn dysgu oddi wrth ei gilydd;
- o ganlyniad, mae gwasanaethau'n dod yn fwy cyson ar draws y gwahanol safleoedd.

Roedd yr ymweliad hefyd yn rhoi sicrwydd neu sicrwydd pellach mewn nifer o feysydd allweddol yn y gwasanaethau mamolaeth, gan gynnwys gofal mewn galar, trosglwyddiadau clinigol, gwasanaethau adborth a chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol. Cafwyd rhywfaint o sicrwydd hefyd mewn meysydd allweddol o fewn y gwasanaeth newyddenedigol megis darpariaeth meddygon ymgynghorol, cynllunio archwiliadau ar y cyd a datblygu dangosfwrdd clinigol.

Mae Adran 3 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y cynnydd cynnar a wnaed o ran ymateb i faterion a ddaeth i'r amlwg o'r adolygiad manwl o wasanaethau newyddenedigol.

O fewn y sefyllfa honno a oedd yn gadarnhaol ar y cyfan, roedd y Panel wedi nodi rhai elfennau y mae angen i'r Bwrdd Iechyd hoelio'i sylw arnynt yn y dyfodol, sef y canlynol:-

- mae mwy o waith i'w wneud o hyd i integreiddio gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn well er mwyn darparu gofal di-dor i famau a babanod;
- mae materion yn dal i fodoli ynghylch babanod yn cael eu geni y tu allan i feini prawf uned newyddenedigol Ysbyty'r Tywysog Siarl, ac fe ddylai hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer yr uwch dimau arwain ar y cyd;
- mae angen rhagor o wybodaeth i ddeall sut mae pryderon a chwynion yn cael eu rheoli, yn enwedig gan fod y Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi newidiadau i fodel gweithredu presennol y Grŵp Ardal Integredig (gweler Adran 2.4) ers hynny;
- mae angen sicrhau mwy o gynnydd ystyrllon er mwyn cyflawni'r dyheadau presennol am ddull llywodraethu a sicrwydd sy'n seiliedig ar ddata, er enghraifft drwy ddatblygu dangosfyrddau data;
- gall rhannu'r hyn a ddysgir gan Ysbyty Tywysoges Cymru gyflymu'r gwelliannau a gyflawnir yn y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl;
- mae sefydliad hirddisgwyliedig yr Uned Asesu Gynaecoleg yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu â staff a defnyddwyr gwasanaethau.

Cafodd yr adborth o'r ymweliad ei groesawu gan y Bwrdd Iechyd ac mae'n cael ei adlewyrchu yn ei gynlluniau gwella i'r dyfodol.

### **2.3 Ymgysylltu â'r Staff**

Yn ystod yr ymweliad tri diwrnod, cyfarfu'r Panel â staff ar bob lefel ac mewn amrywiaeth o wahanol rolau, fel unigolion ac mewn grwpiau ffocws mwy. Roedd yn gyfle gwerthfawr i ddeall sut mae'r newidiadau sy'n cael eu gwneud o fewn y sefydliad yn effeithio ar staff a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.

Roedd rhai o'r staff yn siarad yn frwdfrydig am yr effaith yr oedd y cydweithwyr newydd a oedd yn ymuno â'r gwasanaeth yn ei chael, gan eu bod yn cyflwyno syniadau newydd ac awydd am newid, yn enwedig o ran diwylliant y sefydliad, a oedd yn dylanwadu ar eu cyfoedion. Roedd eraill wedi tynnu sylw at y gwelliannau a oedd wedi cael eu gwneud o ran darparu hyfforddiant ac i'r broses o ddatblygu canllawiau, tra ar yr un pryd yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod cyfathrebu ynghylch ymarfer newydd yn parhau i fod yn hygyrch ac yn effeithiol.

At ei gilydd roedd y staff yn teimlo bod rhannu syniadau a phrofiadau'n ddefnyddiol a bod y strategaeth bresennol ar gyfer ymgysylltu â staff yn dechrau cael effaith. Mae staff yn y tri safle ac mewn lleoliadau cymunedol yn cael eu hannog gan reolwyr i ganolbwyntio ar sut y gallent gyfrannu at newid ac i rannu syniadau ar gyfer gwella. Roedd nifer o aelodau staff yn cydnabod pwysigrwydd nodi problemau yn ogystal â defnyddio eu syniadau a'u sgiliau i fod yn rhan o'r ateb.

## **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Newid Diwylliant**

Mae tystiolaeth o newidiadau cadarnhaol mewn diwylliant mewn meysydd allweddol fel cydweithio rhwng y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, gweithio amlddisgyblaethol a mynd i'r afael â'r diwylliant o weld bai.

Roedd y staff hefyd wedi cyfeirio at yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau ac roedd ymdeimlad clir bod menywod bellach yn cyfrannu mwy at y broses o wneud penderfyniadau ac yn cael eu grymuso i fynegi eu hanghenion a'u dymuniadau. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod cyfyngiadau COVID-19 wedi effeithio ar allu'r staff i gysylltu â menywod a theuluoedd.

Roedd hyn yn arbennig o wir mewn meysydd lle'r oedd y staff eisiau treulio mwy o amser yn cefnogi iechyd a lles menywod yn ystod beichiogrwydd a gwella eu dealltwriaeth am ddewisiadau, gan gynnwys defnyddio Canolfan Eni Tirion.

Roedd yn arbennig o galonogol clywed y staff yn siarad am brosiectau roedden nhw wedi'u cychwyn a chael ymdeimlad o'u brwdfrydedd a'u hymrwymiad i wella a datblygu gwasanaethau, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o sut mae gofal yn effeithio ar y menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Er bod y Panel wedi canfod naws cadarnhaol ar y cyfan, fel sy'n aml yn wir mewn unrhyw raglen ar gyfer newid sefydliadol ar y raddfa hon, mae gwaith i'w wneud o hyd i fynd â phob aelod o staff ar y daith tuag at welliant. Roedd hi'n amlwg bod rhai staff yn dal yn methu neu'n anfodlon mynegi'r cynnydd amlwg sydd wedi'i wneud hyd yma, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar broblemau a heriau'r gorffennol a'r rhai maen nhw'n dal i'w hwynebu.

Efallai ei fod yn ddealladwy yn yr amgylchedd presennol bod rhai staff yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â galw a chapasiti a'r problemau sy'n codi yn sgil absenoldeb staff, yn aml oherwydd COVID-19, ond hefyd am fod staff wedi ymddeol neu wedi symud i rolau newydd. Roedd rhai yn teimlo bod hyn wedi effeithio ar ansawdd y gwasanaeth roeddent yn gallu ei ddarparu, gan gynnwys y parhad gofal y mae llawer o fenywod yn ei werthfawrogi.

Mae'n bwysig bod holl staff y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn cael cyfle i fod yn rhan o'r ateb a dylid holi staff yn rheolaidd ynglŷn â sut maent am weld pethau'n newid a sut y gellir cyflawni'r amcan hwnnw.

Datblygwyd rhaglen ymgysylltu strwythuredig i sicrhau bod llif wybodaeth ddwyffordd rhwng staff a rheolwyr fel bod modd canfod a mynd i'r afael â phroblemau a materion a all amharu ar y broses o ddarparu gwasanaethau o ansawdd da. Mae hyn yng nghyfeiriau cynnar y gweithredu ond mae'n gyfle gwirioneddol i gynnwys mwy o staff yn y broses o newid wrth symud ymlaen.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y 'datgysylltu' y mae rhai staff yn ei deimlo ac mae wrthi'n ceisio newid y diwylliant drwy fabwysiadu dull gweithredu o'r gwaelod i fyny, gan adeiladu ar syniadau a sgiliau'r staff ac ymgysylltu â'r gweithlu cyfan i ddatblygu gweledigaeth strategol ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Gweledigaeth Strategol**

Mae wedi cael ei datblygu, ei chymeradwyo a'i chyfathrebu â'r cyhoedd; cyflawnwyd y camau cynnar ac mae hynny wedi rhoi hyder y bydd modd cyflawni gwelliannau parhaus cynaliadwy yn y tymor hwy.

## **2.4 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

Yn ystod mis Mawrth ac Ebrill 2022, bu'r Panel yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol gyda'r nod o driongli ei asesiad cynnydd yn erbyn ffynonellau gwybodaeth allanol eraill. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau â chyrrff rheoleiddio ac adolygu allanol fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru.

Ar ôl cyhoeddi'r adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol, cafwyd sgysrsiau hefyd â chyrrff rheoleiddio eraill gan gynnwys y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, yn ogystal â chyrrff statudol fel y Cyngor Iechyd Cymuned. Hefyd, ymgynghorodd y Panel ag Aelodau Annibynnol a chynrychiolwyr ar ochr y staff o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Thema eang a ddaeth i'r amlwg o'r trafodaethau hyn oedd yr ansicrwydd sy'n deillio eto o'r newidiadau arfaethedig i fodel gweithredu'r Bwrdd Iechyd. Mae model gweithredu presennol y Grŵp Ardal Integredig wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2020, er nad oedd y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol wedi cael eu trosglwyddo i'r trefniadau newydd tan y Gwanwyn 2021.

Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y model hwn ac wedi cytuno i ailstrwythuro o amgylch darparu gwasanaethau aciwt a'r tu allan i'r ysbyty yn hytrach nag ardaloedd ffisegol. Bydd hyn yn arwain at greu Grwpiau Gofal cyffredinol gyda Grwpiau Gwasanaeth Clinigol swyddogaethol yn bwydo i mewn i'r strwythur.

Sefydli'r 'Grŵp Gofal Menywod a Phlant' ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Er nad oes amheuaeth y bydd hyn yn creu cyfleoedd sylweddol ar gyfer integreiddio'n well ac yn gwella'r trefniadau gweithio ar draws safleoedd, bydd angen ei reoli yn ofalus er mwyn sicrhau nad amherir ar y llinellau atebolrwydd a llywodraethu sydd megis dechrau cael eu sefydlu o dan fodel y Grŵp Ardal Integredig.

Dim ond nawr mae'r staff yn dechrau deall sut mae strwythur y Grŵp Ardal Integredig yn gweithio, ond bydd y model yn newid cyn bo hir. Ni fwriedir i hynny fod yn feirniadaeth. Mae llawer i'w ganmol am adolygu'r model gweithredu. Fodd bynnag, bydd angen rheoli'r newid yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw'r momentwm yn cael ei golli a bod y staff yn dal i ymgysylltu â'r broses.

Yn y cyd-adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2019, roedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru wedi cyflwyno 14 o argymhellion i gefnogi'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â materion fel:-

- gwella'r ffocws strategol ar ansawdd, diogelwch y claf a risg;
- cryfhau arweinyddiaeth o ran ansawdd a diogelwch y claf;
- gwella dulliau craffu'r sefydliad a'r trefniadau ar lefel y gyfarwyddiaeth ar gyfer ansawdd a diogelwch y claf;
- gwella'r dulliau canfod a rheoli risg;
- cryfhau'r broses o reoli digwyddiadau, pryderon a chwynion;
- gwella diwylliant y sefydliad a'r ymagwedd at ddysgu sefydliadol.

Ym mis Mai 2021, roedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru wedi adolygu'r sefyllfa ac wedi darganfod bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion hyn, yn enwedig o ystyried yr heriau mae wedi'u hwynebu wrth ymateb i bandemig COVID-19. Fodd bynnag, gan fod gwaith i'w wneud o hyd ym mhob un o'r meysydd gwella, roedd yr holl argymhellion yn dal yn agored.

Mae'r Panel eisoes wedi cydnabod bod nifer o'r materion hyn yn rhai trawsbynciol gyda'i waith. Bydd y newidiadau arfaethedig i'r model gweithredu yn cymryd amser i'w sefydlu drwy'r sefydliad cyfan, a gallai'r newid hwn effeithio ar y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â phryderon blaenorol am lywodraethu ansawdd.

Bydd y Panel yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r broses o drosglwyddo'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn ddiraffferth i strwythur y grŵp gofal newydd.

## **2.5 Aseiad Presennol yn erbyn Matrics Aeddfedrwydd yr IPAAF**

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Medi 2021, rhoddodd drosolwg cryno o'r ffordd yr oedd yr IPAAF wedi datblygu dros y 12 mis blaenorol. Ers hynny, mae camau pellach wedi cael eu cymryd i gysoni'r broses sicrwydd mamolaeth a newyddenedigol â threfniadau hunanasesu ymyriadau wedi'u targedu'r sefydliad.

O ganlyniad, mae'r IPAAF mamolaeth a newyddenedigol bellach wedi dod yn broses hunanasesu ar lefel sefydliadol ac yn cael ei chynnal bob pedwar mis. Mae pob aseiad dilynol yn cymharu cynnydd yn erbyn yr aseiad blaenorol ac yn erbyn y matrics aeddfedrwydd y cytunwyd arno ar gyfer pob un o'r meysydd yn y fframwaith.

Erbyn hyn mae dull gweithredu haenog o asesu yn y Bwrdd Iechyd. Cynhelir asesiad cychwynnol gan arweinwyr y Grŵp Gwasanaethau Clinigol drwy gyfarfod adolygu a hwylusir gan y Cyfarwyddwr Gwella. Wedyn bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i herio gan Gyfarwyddwyr y Grŵp Ardal Integredig a'r Uwch Swyddogion Cyfrifol dynodedig cyn cael ei gyflwyno i'w archwilio ymhellach gan Aelod Annibynnol sy'n cyd-fynd â'r trefniadau mesurau arbennig. Wedi hynny, bydd canlyniad y broses herio hon yn cael ei drafod yn ystod sesiwn hunanasesu'r Bwrdd, ac os caiff ei gefnogi bydd yn cael ei gadarnhau yn y Bwrdd Cyhoeddus dilynol.

Ym marn y Panel, mae hwn yn gam pwysig ymlaen sy'n rhoi tystiolaeth glir o berchnogaeth uniongyrchol y Bwrdd dros asesu ansawdd a diogelwch ei wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol fel rhan o'i raglen datblygu corfforaethol ehangach.

Mae'r dull sy'n cael ei fabwysiadu yn y Bwrdd Iechyd yn cael ei gydnabod fwyfwy fel arfer da ac mae wedi cael ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru mewn nifer o feysydd eraill ar draws GIG Cymru lle mae angen gwella gwasanaethau.

Mae'r Panel o'r farn bod yr IPAAF bellach wedi'i wreiddio yn y rhaglen wella a bod y gwasanaeth yn berchen arno fel mecanwaith i adlewyrchu a gwerthuso'r dysgu. Mae'n hyrwyddo integreiddio rhwng gwasanaethau ac yn caniatáu adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd drwy ei bwyllgorau mewn fformat strwythuredig y mae'r Swyddogion Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol bellach yn gyfarwydd ag ef.

Mae hefyd yn cynnig ffordd strwythuredig a gwrthrychol o ddangos i gynulleidfa allanol y cynnydd y mae'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn ei wneud dros amser.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – IPAAF**

Mae'r IPAAF yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar lefel y gwasanaeth a'r Bwrdd er mwyn ystyried a gwerthuso cynnydd yn rheolaidd; aseswyd bod y gwasanaeth mamolaeth wedi cyrraedd lefel 'aeddfedrwydd' ar gyfer gofal diogel ac effeithiol, ac mae'r meysydd eraill yn symud tuag at aeddfedrwydd; aseswyd bod y gwasanaeth newyddenedigol wedi cyrraedd y lefel 'canlyniadau' ym mhob un o'r tri maes; gwelwyd tystiolaeth gynnar o gynnydd yn erbyn y metrigau allweddol y cytunwyd arnynt.

Yn ystod mis Ebrill 2022, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei bumed hunanasesiad yn erbyn matricesau aeddfedrwydd yr IPAAF. Bydd yn cael ei gyflwyno am gymeradwyaeth yng nghyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ym mis Mai 2022. Fodd bynnag, mae crynodeb o'r casgliadau isod.

### 2.5.1 Gwasanaethau Mamolaeth

Ar sail yr hunanasesiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dod i'r casgliad mai dyma yw'r lefel aeddfedrwydd yn erbyn y tri maes yn yr IPAAF Mamolaeth ar hyn o bryd:-

- Mae **Gofal Diogel ac Effeithiol** bellach yn y cam 'Aeddfedrwydd' ar ôl symud o 'Canlyniadau' yn yr hunanasesiad blaenorol. Mae nifer o ffactorau yn ategu'r safle hwn, gan gynnwys:-
  - datblygu'r Fframwaith Sicrwydd Mamolaeth a Newyddenedigol drafft;
  - cydymffuriad ar lefel uchel gyda hyfforddiant Aml-broffesiynol Ymarferol mewn Obstetreg wedi'i gynnal;
  - sefydlu byrddau trosglwyddo digidol;
  - cyflwyno monitorau CTG newydd a hyfforddiant cysylltiedig.
- Mae **Ansawdd Profiadau Menywod** bellach yn bendant yn y cam 'Aeddfedrwydd' gyda rhai elfennau'n nesáu at statws 'Enghreifftiol'. Mae nifer o ffactorau yn ategu'r safle hwn, sy'n welliant ar yr hunanasesiad blaenorsaf, gan gynnwys:-
  - cyd-gynhyrchu gwybodaeth i gleifion a lobïo dros adolygu'r cyfyngiadau ymweld drwy'r Fforwm My Maternity My Way;
  - cynllun cyswllt wedi'i adolygu a'i adnewyddu;
  - rhith-deithiau a lansiad y wefan gyhoeddus;
  - digwyddiadau ymgysylltu llwyddiannus ar-lein, gan gynnwys sesiwn ar fwydo babanod yn cael ei wylïo dros 2,800 o weithiau ar-lein.
- Mae **Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth** yn aros yn y cam 'Canlyniadau' gyda nifer o agweddau yn nesáu at 'Aeddfedrwydd'. Mae nifer o ffactorau yn ategu'r safle hwn, gan gynnwys:-
  - gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn yr Undebau Llafur;
  - llwyddo i reoli'r gwaith sydd wedi cronni yn yr ymchwiliad i ddigwyddiadau difrifol ar y cyd ag Uned Gyflawni'r GIG (Cymru);
  - datblygu fframwaith Dadansoddiad o Anghenion Dysgu;
  - ymgysylltiad staff â thriwriaeth y Grŵp Gwasanaethau Clinigol.

Mae'r asesiadau hyn yn cael eu dangos ar ffurf llun yn Ffigur 1 isod.

**Ffigur 1:** Hunanasesiad yr IPAAF Mamolaeth – Ebrill 2022

Maes	Sylfaenol	Cynnydd Cynnar	Canlyniadau	Aeddfedrwydd	Enghreiffiol
Gofal Diogel ac Effeithiol				✓	
Ansawdd Profiadau Menywod				✓	
Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth			✓		

### 2.5.2 Gwasanaethau Newyddenedigol

Ar sail yr hunanasesiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dod i'r casgliad mai dyma yw'r lefel aeddfedrwydd yn erbyn y tri maes yn yr IPAAF Newyddenedigol ar hyn o bryd:-




- Mae **Gofal Diogel ac Effeithiol** bellach yn bendant yn y cam 'Cynnydd Cynnar' gyda nifer o agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Canlyniadau'. Mae nifer o ffactorau yn ategu'r safle hwn, sydd heb newid o'r hunanasesiad blaenorol, gan gynnwys:-
  - datblygu'r Fframwaith Sicrwydd Mamolaeth a Newyddenedigol drafft;
  - rhoi trefniadau ar waith ar gyfer cymorth canolfan drydyddol gydag ymweliadau gan feddygon ymgynghorol â'r uned drydyddol a threfniadau cylchdro nyrsys yn dechrau ym mis Ebrill 2022;
  - sefydlu hyfforddiant efelychu amlddisgyblaethol;
  - cytuno ar gynllun archwilio ar y ddau safle ar gyfer 2022/23.
- Mae **Ansawdd Profiadau Teuluoedd** bellach yn bendant yn y cam 'Cynnydd Cynnar'. Mae nifer o ffactorau yn ategu'r safle hwn, sydd eto heb newid, gan gynnwys:-
  - hysbysebu secondiad ar gyfer swydd yr arweinydd ymgysylltu;
  - sefydlu sesiynau ôl-gyfarfod ar y cyd â'r gwasanaeth pediatreg a mamolaeth ar gyfer teuluoedd sydd wedi cael profiad o ddigwyddiad trawmatig;
  - mecanweithiau ar waith i fonitro pryderon teuluoedd ar ffurf cyfarfodydd llywodraethu bob yn ail wythnos;
  - nifer isel o bryderon neu gwynion yn ymwneud â'r gwasanaeth newyddenedigol yn cael eu codi.
- Mae **Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth** bellach yn bendant yn y cam 'Cynnydd Cynnar' gyda rhai agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Canlyniadau'. Mae'n sefyllfa ddigyfnawid hefyd, gyda nifer o ffactorau yn ategu hynny, gan gynnwys:-



- cynnal cydymffurfriad Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM) ar gyfer lefelau staff nyrsio;
- gwelliannau o ran ansawdd data a datblygu dangosfwrdd;
- argaeledd cymorth seicolegol i staff;
- polisi galwad neidio ar waith a grymuso staff.

Mae'r asesiadau hyn yn cael eu dangos ar ffurf llun yn Ffigur 2.

**Ffigur 2:** Hunanasesiad yr IPAAF Newyddenedigol – Ebrill 2022

Maes	Sylfaenol	Cynnydd Cynnar	Canlyniadau	Aeddfedrwydd	Enghreifftiol
Gofal Diogel ac Effeithiol					
Ansawdd Profiadau Menywod					
Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth					

### 2.5.3 Adolygiad y Panel

Wrth ymgymryd â'i gyfrifoldebau goruchwyllo, mae'r Panel wedi adolygu casgliadau'r Bwrdd lechyd ar sail tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys canlyniadau'r ymweliad sicrwydd diweddar.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, bu aelodau'r Panel yn arsylwi sesiynau hunanasesu ar lefel y Grŵp Gwasanaethau Clinigol ac yn cyfarfod â'r Uwch Swyddogion Cyfrifol i ganfod a thrafod unrhyw wahaniaeth barn sydd wedi dod i'r amlwg yn dilyn y sesiynau herio. Bu Cadeirydd y Panel hefyd yn arsylwi'r sesiwn hunanasesu ar lefel y Bwrdd.

Ar ôl gwneud hynny, daeth y Panel i'r casgliad ei fod yn gallu cefnogi hunanasesiad y Bwrdd lechyd yn llawn a'i fod yn cytuno â'r lefelau aeddfedrwydd y cytunwyd arnynt ym mhob un o'r meysydd yn y fframweithiau mamolaeth a newyddenedigol.

### 2.5.4 Beth Mae Hyn yn ei Olygu?

Mae'r newid o 'Canlyniadau' i 'Aeddfedrwydd' yn y meysydd Gofal Diogel ac Effeithiol ac Ansawdd Profiadau Menywod yn garreg filltir bwysig i'r Bwrdd lechyd mewn perthynas â'i wasanaethau mamolaeth.

Yn syml, mae hyn yn dangos bod y gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu'n gyffredinol i'r safonau a ddisgwylir gan wasanaeth mamolaeth sy'n gweithredu ar y lefel hon o fewn system iechyd y DU. Nid yw hynny'n golygu nad oes mwy o waith i'w wneud; yn wir, mae gan bob gwasanaeth anghenion datblygu parhaus. Fodd bynnag, mae'n dangos bod modd cymharu'r Bwrdd Iechyd erbyn hyn â rhai eraill yng Nghymru yn y meysydd penodol hynny ac mewn rhai ardaloedd, yn enwedig mewn perthynas â rhai agweddau ar ei waith o ran ymgysylltu â menywod a theuluoedd, efallai ei fod bellach yn gosod safonau i eraill eu dilyn.

Mae'n bwysig nodi bod y maes Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn dal i fod yn y cam 'Canlyniadau', yn bennaf oherwydd mai dyna lle mae llawer o'r gwaith sy'n weddill mewn perthynas â diwylliant, arweinyddiaeth a strategaeth.

Mae'r ffaith bod yr asesiad aeddfedrwydd ar gyfer y gwasanaeth newyddenedigol yn parhau ar y cam 'Cynnydd Cynnar' ym mhob un o'r tri maes yn adlewyrchu'r ffaith bod y gwasanaeth ar gam gwahanol iawn yn ei daith tuag at welliant o'i gymharu â'r gwasanaeth mamolaeth. Yn ddiau, gwelwyd rhywfaint o gynnydd ac, mewn rhai agweddau, mae'r gwasanaeth yn nesáu at y cam 'Canlyniadau'. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau gwella manwl sy'n angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael yn llwyr â'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad manwl yn dal i gael eu datblygu ac felly, ym marn y Panel, mae'r asesiad cyffredinol o 'Gynnydd Cynnar' yn adlewyrchiad rhesymol o'r sefyllfa bresennol.

## **2.6 Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol**

Mae cyswllt annatod rhwng y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ac ni ddylid eu hystyried ar eu pen eu hunain; maen nhw'n darparu un llwybr ar gyfer gofalu am famau a babanod. Mae'n bwysig bod dulliau cyfathrebu a chydlynu effeithiol yn cael eu defnyddio ar draws y gwasanaethau. Tynnwyd sylw'n glir iawn at hyn yn [Adroddiad Thematiq Categori Newyddenedigol](#) y Panel sy'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad cynnydd hwn. Am y rheswm hwnnw, yn ogystal ag ymgymryd â'r hunanasesiadau mamolaeth a newyddenedigol, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi asesu ei gynnydd o ran gwella trefniadau cydweithio.

Er nad yw'r Panel yn adrodd ar yr asesiad hwn ar wahân oherwydd ei fod yn rhan annatod o fatricsau aeddfedrwydd y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, gwelwyd rhai datblygiadau allweddol o ran cydweithio sy'n cefnogi asesiad cyffredinol y Panel o gynnydd ac mae'n werth eu crybwyll. Er enghraifft:-

- mae'r prosesau llywodraethu ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol bellach yn fwy integredig, ac mae cyfarfodydd rheolaidd ar draws safleoedd yn cael eu cynnal gan gynnwys cyfarfodydd Adnodd Adolygu Marwolaethau Amenedigol a Threfniadau Osgoi Derbyniadau Cyfnod Llawn i Unedau Newyddenedigol;
- cafwyd mewnbyn gwerthfawr gan gydweithwyr y gwasanaeth mamolaeth ar gyfer yr adolygiad o'r polisi uwchgyfeirio newyddenedigol;

- er bod y gwaith hwn yn ei ddyddiau cynnar, mae trefniadau ar gyfer gofal trosiannol yn cael eu datblygu ac mae wedi cael ei sefydlu fel menter ar y cyd;
- mae mwy o gydweithio ar draws safleoedd rhwng y gwasanaethau sy'n golygu bod prosesau, polisïau a chanllawiau'n cydweddu'n well.

Er gwaethaf y cynnydd calonogol hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod angen gwneud mwy i atgyfnerthu'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ac felly mae wedi nodi rhai camau pwysig i'w cymryd i ddatblygu'r trefniadau cydweithio ymhellach. Mae hyn yn cynnwys:-

- cryfhau presenoldeb meddygon ymgynghorol a sefydlu 'sgrymiau' dyddiol ar y cyd gyda mewnbwn gan feddygon ymgynghorol;
- gwella prosesau ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws gwasanaethau;
- sicrhau y gellir rhannu gweithgareddau gwella ar y cyd yn ddidrafferth mewn amrywiaeth o fforymau, gan gynnwys fforymau gwella ansawdd rhanbarthol a chenedlaethol;
- recriwtio i swyddi ar y cyd gan gynnwys Rheolwr Gwella Ansawdd;
- buddsoddiad ariannol mewn swyddi parhaol i sicrhau cynaliadwyedd.

Mae'r Panel yn cefnogi'r camau nesaf y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u nodi ar gyfer cydweithio yn ei gynllun cerrig milltir, ac mae'n credu y bydd ymgysylltiad meddygol ac arweinyddiaeth feddygol yn elfennau allweddol o ran gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Arweinyddiaeth Feddygol**

Mae arweinyddiaeth feddygol yn amlwg ac yn effeithiol; mae cymorth datblygu arweinyddiaeth ar waith ac mae'r corff ymgynghorol yn ei gyfanrwydd yn cyfrannu'n frwd at y gwaith o wella'r gwasanaeth.

## **2.7 Cyflawni Argymhellion y Colegau Brenhinol**

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd diwethaf, cadarnhaodd y Panel fod 55 o 70 o argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael eu cyflawni tra bod y gweddill yn dal i fod ar wahanol gamau o ddatblygiad. Roedd y Panel hefyd wedi awgrymu ei fod yn bwriadu symud i ffwrdd o argymhellion y Colegau Brenhinol fel prif ddangosydd cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran gwella ei wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Cafodd y rhesymeg dros hynny ei hegluro'n eithaf manwl yn ei Adroddiad Cynnydd ym mis Medi 2021 ac felly ni chaiff ei hailadrodd yma. Fodd bynnag, i grynhoi, o ystyried cam presennol y daith tuag at welliant a phenderfyniad y Bwrdd Iechyd i symud i ddull trawsnewidiol tymor hwy, mae'r Panel yn credu bod y fframwaith rheoli rhaglenni yn cynnig ffordd fwy ystyrlon o werthuso cynnydd, gan ddefnyddio'r cynllun cerrig milltir ac adrodd ar y prif bwyntiau yn erbyn cerrig milltir a metrigau allweddol i fesur hynny.

Dros y chwe mis diwethaf, mae'r tîm gwella wedi casglu tystiolaeth yn erbyn pob un o'r 15 argymhelliad sy'n weddill a'r 10 yr oedd angen cymryd camau dilynol i sicrhau bod y camau gweithredu wedi'u gwreiddio yn yr ymarfer. Mae'r Panel wedi adolygu'r dystiolaeth hon yn systematig ac wedi cytuno ar safle gyda'r Bwrdd Iechyd ar bob un o'r argymhellion 'agored' a 'dilynol'; mae'r categorïau ar gyfer y rhain wedi'u nodi isod.

**Ffigur 3:** Categorïau Cau ar gyfer Argymhellion y Colegau Brenhinol

Categori	Diffiniad
Cau	Mae holl elfennau'r argymhelliad wedi cael eu cyflawni ac nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ar wahân i barhau i wreiddio mewn ymarfer.
Cau gyda rhai elfennau ar ôl	Mae elfennau sylweddol o'r argymhelliad wedi cael eu cyflawni ond mae rhai materion parhaus eto i gael sylw llawn. Bydd y rhain yn cael eu trosglwyddo i gynllun cerrig milltir y Bwrdd Iechyd.
Cau gyda'r holl elfennau ar ôl	Mae rhai agweddau ar yr argymhelliad wedi cael eu cyflawni ond mae'r rhan fwyaf o'r elfennau i'w cyflawni o hyd, a bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun cerrig milltir y Bwrdd Iechyd (mae'r rhain yn cynnwys gwreiddio newid diwylliannol, cynllunio strategol a materion yn ymwneud ag iechyd y boblogaeth).
Cau gweinyddol	Nid yw'r argymhelliad yn berthnasol mwyach yn sgil yr amser sydd wedi mynd heibio neu'r newidiadau mewn amgylchiadau neu mae'n cael ei ddyblygu gan argymhellion eraill.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cychwyn proses fewnol i gytuno ar y categorïau cau ar gyfer pob un o argymhellion y Colegau Brenhinol sy'n weddill.

Mae rhagor o fanylion am asesiad y Panel yn erbyn pob argymhelliad 'agored' (h.y. y rhai nad ydynt wedi cael eu dilysu o'r blaen) ar gael yn Atodiad A. Mae rhagor o wybodaeth am bob argymhelliad 'dilynol' (h.y. y rhai sydd wedi cael eu dilysu yn y gorffennol ond y mae angen eu monitro a'u hailasesu) ar gael yn Atodiad B.

I bob pwrpas, mae'r datblygiadau pellach hynny'n golygu y bydd 62 (89%) o 70 o argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael eu dilysu gan y Panel fel rhai sydd wedi'u cyflawni'n llawn ar ddiwedd y cyfnod adrodd presennol hwn, gyda'r wyth arall (11%) yn parhau i fod yn waith ar y gweill ar wahanol gamau cyflawni.

O'r wyth sy'n parhau i fod ar y gweill, mae pedwar wedi cael eu cyflawni i raddau helaeth ac mae elfennau wedi cael eu symud drosodd i'r cynllun cerrig milltir, tra bo'r pedwar arall yn faterion newid trawsnewidiol a fydd nawr yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gwella tymor hwy.

O'r 10 argymhelliad 'dilynol', mae'r Panel yn fodlon bod wyth wedi cael eu datblygu a'u gwreiddio'n briodol yn yr ymarfer, tra bo dau argymhelliad, er eu bod wedi'u cyflawni i raddau helaeth, yn cynnwys rhai elfennau yr oedd angen eu trosglwyddo i'r cynllun cerrig milltir.

Nid yw'r Panel yn bwriadu adrodd ymhellach ar gynnydd yn erbyn Argymhellion y Colegau Brenhinol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi hynny.

Fel rhan o'r adroddiad hwn, y gobaith oedd y byddai'r Panel mewn sefyllfa i argymhell y ffurfiol i'r Gweinidog y dylid cyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hynny, bydd angen rhoi sicrwydd i'r Panel bod yr holl elfennau sydd heb eu cyflawni wedi cael eu trosglwyddo'n systematig i'r cynllun cerrig milltir a'r rhaglenni gwaith sy'n sail iddo.

Yn anffodus, oherwydd newidiadau gorfodol i staff y tîm gwella, mae rhywfaint o oedi wedi bod o ran cwblhau'r gwaith hwn; o ganlyniad, nid yw'r Panel mewn sefyllfa ar hyn o bryd i argymhell yn ffurfiol bod argymhellion y Colegau Brenhinol yn cael eu cyflawni.

Mae'r materion staffio wedi'u datrys erbyn hyn, a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Fodd bynnag, mae'r Panel yn dymuno gwneud yn berffaith siŵr bod popeth sydd eto i'w wneud yn cael ei drosglwyddo'n systematig i'r cynllun cerrig milltir ac, oherwydd hynny, mae'r Panel wedi gohirio gwneud argymhelliad ffurfiol nes bydd yn cyflwyno ei adroddiad nesaf ym mis Medi 2022.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Argymhellion y Colegau Brenhinol**

Mae proses argymhellion y Colegau Brenhinol yn cael ei chyflawni; mae'r holl argymhellion naill ai'n cael eu cadarnhau gan y Panel fel rhai sydd wedi'u cyflawni neu'n rhai sydd wedi'u trefnu i'w cyflawni yng Nghynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol tymor hwy y Bwrdd Iechyd.

### **3 Gwella'r Gwasanaethau Newyddenedigol**

Ym mis Mawrth 2021, gyda chefnogaeth frwd y Bwrdd Iechyd, gwnaeth y Panel argymhelliad i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd y dylai'r broses oruchwylio roi mwy o bwyslais ar wasanaethau newyddenedigol.

Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad hwn, a chomisiynodd adolygiad 'manwl' i asesu ansawdd a diogelwch y gwasanaethau newyddenedigol sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

#### **3.1 Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol**

Roedd yr adolygiad manwl wedi edrych, yn fanwl, ar bob agwedd ar wasanaeth newyddenedigol yr ysbyty, gan gynnwys y ffordd y mae wedi ei integreiddio â'r gwasanaeth mamolaeth, gwasanaethau eraill y Bwrdd Iechyd a'r rhwydwaith ehangach o wasanaethau newyddenedigol ledled Cymru.

Yn ystod yr adolygiad, ym mis Awst 2021, nododd y tîm adolygu nifer o faterion yr ystyriwyd bod ganddynt y potensial i effeithio ar ddiogelwch y gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys materion a oedd yn ymwneud â darpariaeth meddygon ymgynghorol, cymorth fferylliaeth, gweithio ar y cyd â'r gwasanaeth mamolaeth, a safonau dogfennau. Cafodd y materion hyn eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru i'w gweithredu ar unwaith, ac yn fuan ym mis Medi 2021 cyflwynodd y Gweinidog ddatganiad i'r Senedd a oedd yn egluro beth roedd y Bwrdd Iechyd yn ei wneud i ymateb i'r pryderon a godwyd.

Cafodd yr adolygiad manwl llawn ei gwblhau ym mis Tachwedd 2021, a chyhoeddodd y Gweinidog adroddiad a oedd yn nodi canfyddiadau'r Panel ym mis Chwefror 2022; mae copi o'r adroddiad ar gael [yma](#). Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen gwella'r gwasanaeth newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn sylweddol, a chyflwynodd 42 o argymhellion. Cafodd pob un o'r rhain eu derbyn yn ddiweddarach gan y Bwrdd Iechyd.

Yn ystod eu gwaith, roedd y tîm adolygu wedi nodi rhai cryfderau i adeiladu arnynt, yn anad dim, staff ymroddedig a gofalgar ar bob lefel sydd wedi ymrwymo i'r gwasanaeth newyddenedigol a'i ddatblygiad parhaus. Gwelwyd tystiolaeth bellach o'r awydd hwn am newid yn ystod ymweliad sicrwydd y Panel ym mis Chwefror 2022. Bryd hynny, cafodd arweinwyr newyddenedigol y Panel eu cyfle cyntaf i ymgysylltu wyneb yn wyneb â staff clinigol rheng flaen ar ôl i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio.

Roedd y tîm adolygu hefyd yn cydnabod fod amrywiaeth o strwythurau llywodraethu a sicrwydd wedi cael eu sefydlu sy'n cyfrannu at ddiogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth, er nad yw'r rhain yn gweithredu yn y ffordd sydd ei hangen arnynt eto. Yn ogystal â hynny, cydnabuwyd bod y ffordd y mae digwyddiadau difrifol yn cael eu nodi, cofnodi ac ymchwilio yn gwella ond bod angen gwneud rhagor o waith fel rhan o'r ymateb corfforaethol ehangach.

Er bod rhai cryfderau i adeiladu arnynt, nodwyd nifer sylweddol o feysydd, yn ogystal â'r materion sy'n hanfodol i ddiogelwch sydd wedi deillio o'r cynnydd interim, lle'r oedd angen i'r gwasanaeth wella - ac mewn rhai meysydd, gwella'n gyflym. Yn benodol, pwysleisiodd y Panel fod angen i'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:-

- gwneud cynnydd cyflym mewn perthynas â'r materion a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod mis Awst 2021 a oedd yn dal heb eu datrys, a sicrhau bod y newidiadau a oedd wedi cael eu rhoi ar waith mewn ymateb yn cael eu gwreiddio yn yr ymarfer;
- asesu, blaenoriaethu ac integreiddio'r camau sy'n ofynnol ar frys er mwyn mynd i'r afael â gweddill y 42 o argymhellion yn eu cynlluniau gwella ehangach;
- darparu'r un lefel o oruchwyliaeth a chraffu gan y Bwrdd i'r gwasanaeth newyddenedigol ag sydd ganddo i'r gwasanaeth mamolaeth, gyda dangosfwrdd mwy cynhwysfawr o fetrigau perthnasol a chywir.

Roedd nifer sylweddol o argymhellion y Panel yn berthnasol i agweddau penodol ar ofal clinigol neu brosesau llywodraethu, a phwysleiswyd y dylid mynd i'r afael â'r rhain yn gyflym. Er mwyn galluogi hyn, dywedodd y Panel y dylai'r Bwrdd lechyd adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud yn y gwasanaeth mamolaeth ac sy'n parhau i gael eu gwneud, yn ogystal â meysydd eraill o waith gwella'r Bwrdd lechyd.

Cydnabuwyd bod argymhellion eraill yn gofyn am newid ymddygiad a diwylliant neu fuddsoddiad yn y gweithlu a hyfforddiant a fydd yn cymryd mwy o amser i weithredu a gwreiddio mewn ymarfer.

Roedd y Panel hefyd yn ystyried y gallai'r canfyddiadau a'r casgliadau a oedd wedi deillio o'r adolygiad manwl gynnig gwersi ehangach i gyrff iechyd eraill yng Nghymru a thu hwnt o bosibl. Yn yr adroddiad manwl, mae'r Panel felly wedi gwneud pedwar argymhelliad i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

Cafodd y rhain eu derbyn yn ddiweddarach, ac ar 10 Chwefror cyhoeddodd y Gweinidog mai'r Rhaglen Cymorth Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol a sefydlwyd yn ddiweddar fydd y cyfrwng i fwrw ymlaen â'r argymhellion ehangach hyn. Mae copi o ddatganiad y Gweinidog ar gael [yma](#) ac mae gwybodaeth gefndirol am y Rhaglen Cymorth Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol ar gael yn Adran 6.2.

### **3.2 Asesu Camau Brys**

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni argymhellion yr adolygiad manwl, mae'r Panel wedi datblygu 'templed cynllun gweithredu' ac wedi'i rannu â'r Bwrdd lechyd. Bwriad hyn oedd egluro disgwyliadau'r Panel a nodi'n fanylach y gwaith sydd angen ei wneud i fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion, ynghyd ag amserlenni a awgrymir ar gyfer cwblhau er mwyn gallu blaenoriaethu.

Nododd y Panel bum argymhelliad arall a oedd yn gofyn am weithredu ar unwaith (h.y. cyn pen tri mis) yn ogystal â'r 14 cam gweithredu yr oedd disgwyl i'r Bwrdd lechyd roi sylw iddynt mewn ymateb i'r penderfyniad i uwchgyfeirio ar unwaith ym mis Awst 2021.

Mae hon yn broses barhaus, ac adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd y Bwrdd lechyd wedi cyflwyno pecynnau cynhwysfawr o dystiolaeth yn erbyn naw o'r 19 maes y mae angen eu gwella ar unwaith. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd wedi cael ei gwerthuso gan y Panel, ac mae canlyniad pob un wedi'i nodi yn Atodiad C ynghyd ag asesiad o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r camau neu'r argymhellion hynny sydd, ym marn y Bwrdd lechyd, yn dal i fod yn 'waith ar y gweill'.

O ganlyniad i ymateb cynnar y Bwrdd lechyd i'r materion sy'n deillio o'r adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol, mae nifer o faterion sy'n hanfodol i ddiogelwch wedi cael sylw ac mae'r prosesau allweddol bellach ar waith i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:-

- camau i wella safonau rhagnodi a datblygu nifer o fentrau i newid arferion rhagnodi;
- darpariaeth meddyg ymgynghorol well yn ystod y dydd sydd bellach yn rhedeg rhwng 08:30 a 16:30, gydag amser wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith newyddenedigol wedi'i gytuno yng nghynlluniau gwaith nifer o feddygon ymgynghorol;
- ffocws clir ar wella safonau dogfennau gyda chynlluniau ar waith i ddatblygu hyn ymhellach;
- tystiolaeth o gydweithio mwy effeithiol rhwng y timau newyddenedigol a mamolaeth, er bod gwaith i'w wneud o hyd yn y maes hwn (gweler Adran 2.7).

Mae'r Panel yn cydnabod bod datblygiadau cadarnhaol wedi cael eu gwneud ym mhob un o'r 19 maes a nodwyd fel rhai y mae angen gweithredu arnynt ar frys, gyda gwaith paratoi wedi'i gwblhau a rhai canlyniadau cynnar wedi'u cynhyrchu. Fodd bynnag, mae'r Panel wedi dod i'r casgliad mai dim ond pump o'r 19 maes i'w gwella ar unwaith y gellir eu hystyried fel rhai sydd wedi'u cwblhau a'u gwreiddio'n llawn mewn ymarfer ar hyn o bryd.

Roedd y Panel yn gobeithio, erbyn hyn, y byddai wedi gweld mwy o dystiolaeth o gynnydd pendant yn erbyn yr argymhellion a oedd wedi deillio o'r adolygiad manwl ac yn enwedig y rhai yr oedd angen gweithredu arnynt ar unwaith.

Wedi dweud hynny, mae'r Panel yn cydnabod bod heriau gweithredol sylweddol a pharhaus wedi bod yn y gwasanaeth newyddenedigol dros y chwech i wyth mis diwethaf sydd wedi effeithio ar allu'r gwasanaeth i ryddhau staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwella. Mae hyn i'w briodoli i raddau helaeth i effaith barhaus COVID-19 ar lefelau salwch staff a rhywfaint o achosion o salwch hirdymor nad oes modd ei osgoi yn yr uwch dîm rheoli; nid yw'n adlewyrchiad o ymrwymiad y Bwrdd lechyd na'r tîm newyddenedigol i fwrw ymlaen â gwelliannau yn y gwasanaeth.



Mae pryderon y Panel ynghylch cyflymder y cynnydd wedi cael eu codi, ac mae'r Bwrdd lechyd yn rhannu'r pryderon hynny. Maent wedi cael eu derbyn yn adeiladol, ac mae ymrwymiad i gyflymu'r ddarpariaeth dros y misoedd nesaf wrth i gapasiti ychwanegol fod ar gael.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Gwella'r Gwasanaeth Newyddenedigol Cynnar**

Mae'r Panel wedi cadarnhau bod yr argymhellion yn yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol sy'n gofyn am weithredu ar unwaith wedi cael eu cwblhau a'u bod yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch yr uned; mae cynllun i gyflawni'r argymhellion sy'n weddill wedi cael ei ddatblygu ac mae'r Panel wedi cytuno arno.

### **3.3 Y Camau Nesaf**

Bydd yn bwysig i'r Bwrdd lechyd adeiladu a throsglwyddo'r hyn a ddysgwyd yn sgil mynd â gwelliannau'r gwasanaeth mamolaeth ymlaen i'r broses o wella'r gwasanaeth newyddenedigol. Os yw'n llwyddiannus, bydd yn galluogi'r rhaglen i adeiladu momentwm a chyflawni yn erbyn yr argymhellion yn brydlon, gan ganolbwyntio ar anghenion babanod, mamau a theuluoedd sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Yn anad dim, mae llawer y gellir ei ddysgu o'r cynnydd y mae'r tîm mamolaeth wedi'i wneud o ran ymgysylltu â'r menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Ochr yn ochr â mynd i'r afael â'r gwelliannau brys, mae angen i'r Bwrdd lechyd ystyried sut mae'r argymhellion sy'n weddill o'r adolygiad manwl yn cael eu hymgorffori yn y cynlluniau tymor hwy a'r weledigaeth pum mlynedd. Mae cynnwys menywod a theuluoedd yn y broses hon a chlywed 'llais y rhiant' yn parhau i fod yn hollbwysig.

Bydd y Panel, a'r arweinwyr newyddenedigol yn benodol, yn parhau i weithio ochr yn ochr â gwasanaeth newyddenedigol y Bwrdd lechyd er mwyn darparu arweiniad a chefnogaeth a'r gobaith yw, pan fydd y Panel yn cyflwyno'i adroddiad nesaf, y bydd datblygiadau mwy sylweddol i'w rhannu.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Gwella'r Gwasanaeth Newyddenedigol Tymor Hwy**

Mae cynlluniau gwella tymor hwy yn gredadwy gydag amserlen a llwybr clir; mae tystiolaeth o gynnydd ystyrion yn erbyn yr elfennau yn y cynllun gwella sy'n gofyn am ymatebion tymor byr a chanolig, yn enwedig yr argymhellion sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â theuluoedd.

## 4 Y Rhaglen Adolygiadau Clinigol

Roedd cylch gorchwyl gwreiddiol y Panel yn cynnwys gofyniad i sefydlu ac ymgymryd â phroses amlddisgyblaethol annibynnol i adolygu cyfnodau gofal perthnasol yn glinigol ac i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu ar unrhyw beth a ddysgir o'r adolygiadau hyn ac yn ei rannu â sefydliadau iechyd eraill ar sail Cymru gyfan yn ogystal â sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig.

Mewn ymateb, datblygodd y Panel Strategaeth Adolygiadau Clinigol sydd ar gael [yma](#). Cafodd y Strategaeth ei chyhoeddi'n wreiddiol ym mis Hydref 2019, ac mae wedi cael ei diwygio ers hynny i adlewyrchu newidiadau mwy diweddar i'r broses.

Roedd y Strategaeth Adolygiadau Clinigol yn nodi manylion y rhaglen a oedd yn cynnwys tair elfen allweddol:-

- (i) adolygiad o'r gofal mamolaeth a newyddenedigol a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd rhwng mis Ionawr 2016 a mis Hydref 2018, gan gynnwys 43 cyfnod gofal penodol y nodwyd bod angen eu hadolygu ymhellach gan y Colegau Brenhinol (cyfeirir atynt fel golwg yn ôl 2016-18);
- (ii) proses hunanatgyfeirio, a reolir gan y Bwrdd Iechyd ac a oruchwylir gan y Panel, i adolygu materion a gyfeirir yn uniongyrchol gan fenywod a theuluoedd mewn ymateb i ymrwymiad y Gweinidog;
- (iii) goruchwyllo ymchwiliad y Bwrdd Iechyd i ddigwyddiadau difrifol sydd wedi digwydd ar ôl mis Hydref 2018 gyda'r bwriad o roi sicrwydd bod y systemau a'r prosesau presennol yn addas i'r diben.

Yn ogystal â hynny, yn unol ag argymhelliad y Colegau Brenhinol, roedd y Rhaglen Adolygiadau Clinigol yn cynnwys ymrwymiad i ystyried yr angen i ymestyn yr ymarfer golwg yn ôl y tu hwnt i 2016, o bosibl yn ôl i 2010. Fodd bynnag, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ohirio nes bydd canlyniadau carfan 2016-18 yn hysbys.

### 4.1 Trosolwg o'r golwg yn ôl 2016-2018

Mae'r Strategaeth yn nodi'r meini prawf cynhwysiant a ddefnyddiwyd i nodi'r cyfnodau gofal i'w hadolygu yng ngolwg yn ôl 2016-18 a'r fethodoleg a ddefnyddir i archwilio'r rhain. Mae'r fethodoleg hon wedi datblygu yn ystod yr adolygiadau drwy ddysgu prosesau ac mae'r strategaeth wedi cael ei diweddarau o bryd i'w gilydd i adlewyrchu hyn.

Cafodd cyfanswm o 161 o gyfnodau gofal eu nodi ar gyfer adolygiad yng nghanam hwn y rhaglen. Er mwyn cyflawni hyn, cafodd adolygwyr clinigol eu recriwtio o fis Tachwedd 2019 ymlaen a sefydlwyd chwe thîm adolygu amlddisgyblaethol a gafodd gymorth gan glinigwyr ychwanegol sydd â chyfrifoldebau dros sicrhau ansawdd a drafftio adborth unigol ar gyfer menywod a theuluoedd. Dechreuodd yr adolygiadau clinigol o ddifrif yn ystod mis Ionawr 2020.

Prif bwrpas y Rhaglen Adolygiadau Clinigol yw nodi dysgu sefydliadol a fydd yn helpu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol nawr ac yn y dyfodol, ac i ddarparu atebion, lle bo atebion ar gael, i deuluoedd a menywod sydd â chwestiynau a phryderon am y gofal y rhoddwyd iddynt.

Yn unol ag arferion cydnabyddedig, nododd y Strategaeth dair carfan i'w hadolygu yn ystod golwg yn ôl 2016-18, fel y nodir isod:

CATEGORI	DISGRIFIAD
1. Afiachedd a marwolaethau ymysg mamau	Y gofal a roddwyd i famau, gan gynnwys y rheini yr oedd angen eu hanfon i'r uned gofal dwys (ICU) o bosibl
2. Marw-enedigaethau	Babanod a oedd wedi cael eu geni'n farw
3. Afiachedd a marwolaethau ymysg babanod newydd-anedig	Babanod a fu farw yn dilyn yr enedigaeth neu a oedd angen gofal arbenigol

Ni fwriedir i'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol roi bai na chwilio'n benodol am fethiannau unigol. Fodd bynnag, pan fydd pryderon wedi dod i'r amlwg yn ymwneud â chymhwysedd proffesiynol neu ymddygiad aelodau unigol o staff, mae trefniadau ar waith fel bod modd cyfeirio materion o'r fath at y Bwrdd Iechyd ac, yn ôl yr angen, at y cyrff proffesiynol priodol. Hyd yma, dim ond nifer fach o atgyfeiriadau unigol sydd wedi cael eu gwneud i'r Bwrdd Iechyd a dim ond un sydd wedi cael ei ystyried yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ei gyfeirio at y corff proffesiynol perthnasol.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses o gyfeirio ac uwchgyfeirio ar gael yn [Strategaeth Adolygiadau Clinigol](#) y Panel.

## 4.2 Categoriâu Mamolaeth a Marw-enedigaethau

Pan adroddodd y Panel ddiwethaf ym mis Medi 2021, roedd cam cyntaf ac ail gam y rhaglen wedi dod i ben. Mae'r prif themâu a materion a ddaeth i'r amlwg o'r adolygiad clinigol o'r cyfnodau gofal yn y categorïau mamolaeth a marw-enedigaethau yn debyg mewn sawl ffordd. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:-

- methiant i adnabod ac ymateb i sefyllfaoedd risg uchel yn brydlon;
- triniaeth amhriodol neu annigonol;
- methiannau o ran goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth glinigol.

Dewisodd nifer o fenywod a theuluoedd i rannu eu profiadau yn y categorïau mamolaeth a marw-enedigaethau. Cafodd y straeon hyn eu hystyried gan y timau annibynnol ochr yn ochr â dogfennau clinigol fel rhan o'r broses adolygu ac roeddent yn cynnwys naratifau a gwybodaeth bwerus am eu profiad o ofal.

Nodwyd themâu cyson drwy ddadansoddi'r straeon hyn a oedd, o safbwynt y menywod a'r teuluoedd, wedi cael effaith andwyol ar ansawdd cyffredinol eu gofal ac wedi cyfrannu at eu canlyniadau andwyol.

Gellir crynhoi'r themâu a ddaeth i'r amlwg fel a ganlyn:-

- diffyg gwybodaeth berthnasol a phrydlon i helpu i wneud dewisiadau;
- methiant i ddeall anghenion unigol menywod a darparu ar eu cyfer;
- methiant i fonitro ac uwchgyfeirio eu triniaeth pan newidiodd pethau;
- cyfathrebu gwael gyda'r rhai a oedd yn darparu'r gofal a rhyngddynt;
- cymorth a gofal mewn profedigaeth ar ôl geni.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau thematig perthnasol a gyhoeddwyd ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru am y themâu a'r materion allweddol a nodwyd yn y categorïau adolygiadau clinigol mamolaeth a marw-enedigaethau, ochr yn ochr â'r argymhellion a wnaed gan y Panel i helpu'r Bwrdd Iechyd i fwrw ymlaen â'r dysgu a'r gwelliannau angenrheidiol a'u rhoi ar waith.

### 4.3 Categori Newyddenedigol

Ers i'r Panel gyflwyno'i adroddiad diwethaf ynghylch y trydydd cam a'r olaf, mae'r broses o adolygu gofal babanod a oedd, gwaetha'r modd, wedi marw neu yr oedd angen gofal arbenigol arnynt ar ôl eu geni, wedi'i gwblhau. Mae'r holl fenywod a theuluoedd sy'n ymwneud â'r cam hwn wedi cael cyfle i gael copi o'u hadroddiad unigol ar y canfyddiadau os ydynt yn dymuno.

Ochr yn ochr â'r adroddiad cynnydd hwn, mae'r Gweinidog yn cyhoeddi'r Adroddiad Thematig Categori Newyddenedigol sy'n crynhoi'r prif themâu a materion sy'n dod i'r amlwg o'r garfan hon. Mae i'w gweld [yma](#).

Er bod goleuni pellach wedi'i daflu yn y categori newyddenedigol, nid yw'r Panel yn credu bod unrhyw beth sylfaenol newydd wedi dod i'r amlwg y tu hwnt i'r themâu allweddol a nodwyd yn y ddau gategori cyntaf neu yn yr asesiadau achos clinigol a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol.

Nid yw hyn yn golygu bod y canfyddiadau'n llai perthnasol nac arwyddocaol i'r menywod a'r teuluoedd dan sylw. Fodd bynnag, o ran addysg i'r Bwrdd Iechyd, nid yw'r Panel yn credu bod angen gwneud unrhyw argymhellion pellach y tu hwnt i'r rheini sydd eisoes wedi'u darparu yn Adroddiad Thematig y Categori Marw-enedigaethau a'r Adroddiad Manwl o'r Gwasanaeth Newyddenedigol.

### 4.4 Hunanatgyfeiriadau

Yn unol ag ymrwymiad y Gweinidog, mae'r Bwrdd Iechyd a'r Panel wedi mynd ati ar y cyd i ddatblygu llwybr ar gyfer adolygu cyfnodau gofal a oedd wedi cael eu hunanatgyfeirio gan fenywod a'u teuluoedd.

Cafodd pob un o'r hunanatgyfeiriadau eu brysbennu i ddechrau gan y Bwrdd Iechyd a naill ai eu cynnwys yn Rhaglen Adolygiadau Clinigol y Panel lle'r oeddent yn cydfynd yn briodol â'r meini prawf neu eu hadolygu gan y Bwrdd Iechyd gyda goruchwyliaeth arweinwyr clinigol y Panel. Hyd yma, mae 25 o hunanatgyfeiriadau wedi'u derbyn gan y Bwrdd Iechyd, ac mae pob un ohonynt wedi dod i ben erbyn hyn ac mae'r canfyddiadau wedi'u rhannu â'r teuluoedd.

Mae'r broses hunanatgyfeirio yn dal ar agor ar hyn o bryd i unrhyw fenywod neu deuluoedd sy'n poeni am y gofal mamolaeth neu'r gofal newyddenedigol a gawsant gan y Bwrdd Iechyd, pryd bynnag y cafodd y gofal hwnnw ei ddarparu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw hunangyfeiriadau newydd wedi cael eu gwneud ers mis Ionawr 2021.

#### **4.5 Digwyddiadau Difrifol ers mis Hydref 2018**

Pan ddatblygwyd y Rhaglen Adolygiadau Clinigol yn wreiddiol, cytunwyd mai ar y Bwrdd Iechyd fyddai'r cyfrifoldeb dros reoli adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol ers mis Hydref 2018, ond y byddai'r Panel yn goruchwyllo'r gwaith. Roedd dau reswm am hyn. Y rheswm cyntaf, mwy ymarferol, oedd bod angen i'r Panel ganolbwyntio ar ymarfer golwg yn ôl 2016-18, a oedd yn argymhelliad penodol gan y Colegau Brenhinol. Yr ail reswm, a oedd yn fwy seiliedig ar egwyddorion, oedd y gydnabyddiaeth y dylai'r Bwrdd Iechyd ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros wella ei brosesau adolygu ei hun, a bod hynny'n annhebygol o ddigwydd pe bai rhaglen allanol annibynnol yn cael ei datblygu i adolygu digwyddiadau mwy cyfoes.

Yn seiliedig ar hynny, cytunwyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn rheoli'r digwyddiadau difrifol ers mis Hydref 2018, ac y byddai'r Panel yn rhoi proses ar waith i samplu ymchwiliadau ar hap, gyda'r bwriad o gael y sicrwydd angenrheidiol i allu rhoi gwybod i'r Gweinidog bod y prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd yn addas i'r diben.

Fel y nodwyd yn adroddiad diwethaf y Panel, nid oedd prosesau blaenorol y Bwrdd Iechyd wedi gwrthsefyll craffu ac o ganlyniad, comisiynwyd Uned Gyflawni GIG Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2021 i gefnogi'r Bwrdd Iechyd gyda'r gwaith hwn.

Mae Uned Gyflawni GIG Cymru wedi ymgymryd â darn penodol o waith sicrwydd yng ngwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y Bwrdd Iechyd i gryfhau eu prosesau a'u systemau ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau a dysgu o ddigwyddiadau, yn ogystal â'u helpu i flaenoriaethu'r digwyddiadau difrifol sydd wedi pentyrru ac i ddelio â nhw'n brydlon.

Ym mis Ebrill 2022, cyflwynodd Uned Gyflawni GIG Cymru ei adroddiad terfynol a ddaeth i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran rheoli digwyddiadau difrifol gan y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod y gwelliannau'n gynaliadwy a bod holl elfennau'r argymhellion blaenorol yn cael eu cyflawni'n llawn. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio er mwyn sicrhau bod y cynnydd a wnaed yn cael ei wreiddio'n gadarn mewn ymarfer ac yn dod yn 'fusnes fel arfer'.

Mae perchnogaeth a chefnogaeth tîm diogelwch cleifion corfforaethol y Bwrdd Iechyd wedi bod yn ffactor allweddol wrth gyflawni hyn, a chydabyddir y dysgu trosglwyddadwy mae hyn wedi'i ddarparu ar gyfer y gwasanaethau eraill yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r Panel yn hyderus bod y timau mamolaeth, newyddenedigol ac ansawdd corfforaethol a diogelwch yn gwbl ymwybodol o'r gwelliannau sydd eu hangen, ac ar hyn o bryd maen nhw'n gweithio ar roi'r rhain ar waith gan gynnwys diweddarau polisïau, canllawiau a fframweithiau presennol yn seiliedig ar gyngor gan Uned Gyflawni GIG Cymru.

Mae'n amlwg bod angen mwy o ran cyfraniad y gwasanaeth newyddenedigol at yr ymchwiliadau ond mae hyn eisoes yn cael sylw fel rhan o ymateb parhaus y Bwrdd Iechyd i argymhellion yr adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol. O safbwynt y Panel, mae'r adroddiad a ddarperir gan Uned Gyflawni GIG Cymru i bob pwrpas yn 'cau'r' elfen hon o'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol, a sicrhawyd y Panel bod y systemau a'r prosesau ar gyfer rheoli ac ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol yn addas i'r diben.

Mae hon yn garreg filltir bwysig i'r Bwrdd Iechyd sy'n cynrychioli penllanw dwy flynedd o waith; mae cwblhau'r gwaith hwn yn golygu bod modd ystyried cau'r digwyddiadau difrifol sydd wedi digwydd ers 01 Hydref 2018 fel y bo'n briodol.

#### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Ymchwilio i Ddigwyddiadau Difrifol**

Mae argymhellion Uned Gyflawni'r GIG (Cymru) yn cael eu cyflawni a'u cymeradwyo; mae ymchwiliadau effeithiol yn cael eu cynnal ar sail 'busnes fel arfer'; mae'r holl ddysgu'n cael ei nodi a'i rannu'n rheolaidd ac mae tystiolaeth bod hyn yn arwain at welliannau mewn gofal.

#### **4.6 Golwg yn ôl cyn-2016**

Gan fod cam olaf golwg yn ôl 2016-18 bellach wedi dod i ben, mae'r Panel yn teimlo ei bod yn amserol i benderfyniad gael ei wneud ynghylch yr angen am adolygiadau pellach ar ôl 2016.

Mae'r Panel wedi seilio ei argymhelliad ar olwg yn ôl cyn-2016 ar dri chasgliad cyffredinol y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:-

- (i) mae'r hyn a ddysgwyd o'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol hyd yma yn cyd-fynd yn fras â'r canfyddiadau a'r casgliadau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Colegau Brenhinol. O'r herwydd, mae'n annhebygol y byddai'r sefydliad yn dysgu mwy wrth ymestyn y rhaglen y tu hwnt i 2016;
- (ii) er bod y potensial i ddysgu yn debygol o fod yn gyfyngedig, mae'n debygol y bydd menywod a theuluoedd yn dal i fod â phryderon a chwestiynau am y gofal a gawsant cyn mis Ionawr 2016 ac fe ddylai rhyw fath o gymorth fod ar gael i alluogi'r bobl hynny i gael atebion;

- (iii) er ei bod yn anodd pennu faint o bobl a allai ddod ymlaen i wneud cais i adolygu'r gofal a gawsant, mae lefel y diddordeb gan fenywod a theuluoedd yn y broses bresennol (fel y gwelwyd gan lefel y ceisiadau am adborth manwl o'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol bresennol a nifer yr atgyfeiriadau sy'n deillio o'r broses hunangyfeirio bresennol) wedi bod yn llai na'r disgwyl.

Gan ystyried y casgliadau hynny, mae'r Panel yn gwneud yr argymhelliad canlynol i'w ystyried gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

### **Argymhelliad Un – Golwg yn ôl cyn-2016**

Dylai'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol bresennol ddod i ben pan fydd cam presennol y gweithgarwch yn gorffen. Dylai rôl y Panel o ran rheoli a goruchwyllo'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol ddod i ben ar yr un pryd ac fe ddylai'r Bwrdd Iechyd reoli'r broses yn y dyfodol gyda goruchwyliaeth gan Lywodraeth Cymru.

Dylai'r broses hunangyfeirio bresennol symud i broses sy'n cael ei harwain gan y Bwrdd Iechyd, yn seiliedig ar egwyddorion y prosesau Gweithio i Wella presennol, a fyddai'n cynnig cymorth i'r menywod a'r teuluoedd hynny sy'n dal i fynnu atebion am y gofal a gawsant cyn 2016.

Os derbynnir yr argymhelliad hwn mewn egwyddor gan y Gweinidog, yna bydd angen datblygu cynigion manylach mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Iechyd, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned neu ei gorff olynol.

Bydd angen i'r trefniadau hyn roi sylw i amrywiaeth o faterion allweddol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo'r broses yn barhaus, allanoldeb yn yr adolygiadau lle bo'n briodol, pa feini prawf cynhwysiant y dylid eu mabwysiadu a sut yr ariennir y trefniadau.

Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus hefyd i sut y caiff y trefniadau eu cyfathrebu er mwyn sicrhau bod y rhai a allai ddymuno i'w gofal gael ei adolygu yn ymwybodol o'r trefniadau a sut i wneud cais. Yn hynny o beth, mae llawer o ddysgu y gellir ei drosglwyddo o'r ffordd y cafodd y llwybr hunangyfeirio gwreiddiol ei gyfathrebu.

Dylid nodi bod rheoliadau Gweithio i Wella wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd i ofal a ddarperir o fewn 12 mis oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Byddai cynyddu'r cwmpas i gydnabod y rhain fel amgylchiadau eithriadol yn caniatáu i egwyddorion Gweithio i Wella gael eu defnyddio ar gyfer y menywod a'r teuluoedd a oedd wedi derbyn gofal dros 12 mis yn ôl, gan gwmpasu'r cyfnod y tu hwnt i 2016 ac osgoi'r angen i sefydlu mecanweithiau ychwanegol yn benodol ar gyfer y diben hwn.



Pan fydd y Panel yn cyflwyno'i adroddiad nesaf ym mis Medi 2022, rhagwelir y bydd yn gallu nodi'n fanwl sut y gall y menywod a'r teuluoedd sy'n dymuno gwneud hynny barhau i gyflwyno'u hunain ar gyfer adolygiad clinigol o'r gofal a gawsant cyn 2016.

#### **4.7 Cau'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol**

Mae gan y Bwrdd Iechyd broses gadarn ar waith ar gyfer olrhain a monitro camau gweithredu unigol sydd wedi cael eu nodi drwy'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol. Mae'r Panel yn goruchwyllo'r broses hon fel rhan o'i rôl oruchwyllo ehangach. Lle bo'n briodol, mae unrhyw gamau arwyddocaol yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd rhwng y Panel a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu proses ar gyfer dod â gwahanol elfennau'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol i ben. O ystyried y cynnydd sydd wedi cael ei wneud hyd yma o ran bwrw ymlaen â'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau, rhagwelir y bydd y Bwrdd Iechyd yn cymryd mwy a mwy o berchnogaeth dros gamau dod â'r broses i ben.

Bydd yn gyfle i ddangos ei aeddfedrwydd cynyddol o ran sefydlu a bwrw ymlaen â chamau gwella, gan ddefnyddio'r mecanweithiau sicrwydd mewnol sydd wedi'u sefydlu'n fwy eang o fewn y rhaglen wella lle gall y Panel gael ei sicrwydd ei hun.

Mae'n dal yn hanfodol bod yr allbynnau o'r broses adolygu clinigol, yn enwedig canfyddiadau'r adolygiad unigol a'r adborth ar gyfer menywod a theuluoedd, yn cael eu storio'n ddiogel a'u bod ar gael os bydd unrhyw un o'r teuluoedd hyn yn penderfynu eu bod yn dymuno eu cael yn y dyfodol. Bydd y cofnodion hyn yn cael eu cadw a'u storio yng nghronfa ddata 'Safe Haven' y Bwrdd Iechyd a sefydlwyd yn benodol fel bod modd i'r broses adolygu clinigol alluogi hyn.

#### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Y Rhaglen Adolygiadau Clinigol**

Mae'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol wedi'i chwblhau'n llwyr; rhoddwyd sylw llawn i'r argymhellion sy'n dod i'r amlwg a chamau gweithredu'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Panel yn gweithio gyda thîm y Prif Swyddog Nyrsio i ddatblygu cynlluniau ar gyfer uwchgynhadledd genedlaethol ar gyfer gofal mamolaeth a newyddenedigol, a rhagwelir y bydd yn cael ei chynnal yn ystod yr Haf 2022. Bwriedir i hyn ddwyn ynghyd y swm sylweddol o ddysgu sydd wedi dod allan o Raglen Adolygiadau Clinigol y Panel yn ogystal ag adroddiadau allweddol eraill ac archwiliadau cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y canfyddiadau interim hefyd ar gael o gam darganfod cychwynnol y Rhaglen Cymorth Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol, a bydd yr wybodaeth hon yn cael ei gwerthuso a'i thrafod i nodi camau gweithredu allweddol ar gyfer Cymru. Mae rhagor o wybodaeth gefndirol am y rhaglen hon ar gael yn Adran 6.2.



## 5 Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Medi 2021, nododd ei fod wedi sylwi bod agwedd gyffredinol y Bwrdd Iechyd at ymgysylltu â menywod a theuluoedd wedi newid yn sylfaenol, ac roedd hynny wedi arwain at fwy o hyder ymysg y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'n amlwg bod cred glir a gwirioneddol yng ngwerth ymgysylltu, ac mae'r seilwaith ar waith i wneud yn siŵr bod y newid hwn yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Er bod COVID-19 wedi parhau i effeithio ar y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu ymgysylltu â'i gymunedau, roedd y Panel yn cydnabod y defnydd creadigol o gyfryngau cymdeithasol a mathau eraill o dechnoleg o bell i ymgysylltu a chydgynhyrchu gyda menywod a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth mamolaeth. Mae'r dulliau newydd hyn wedi llwyddo i gyrraedd llawer mwy o bobl leol nag a fyddai wedi cael eu cynnwys o'r blaen.

### 5.1 Datblygiadau ym maes Ymgysylltu a Chyfathrebu

Mae dull cynhwysfawr y gwasanaeth mamolaeth o ymgysylltu â menywod a theuluoedd wedi cael ei ddatblygu ymhellach, ac mae'r cyflwyniadau gan y Fydwraig Ymgynghorol (sydd hefyd yn Arweinydd Ffrwd Waith Ansawdd Profiadau Menywod) yn drawiadol o ran dangos cryfder, cyrhaeddiad ac arloesedd cynyddol yr ymgysylltu.

Yn anad dim, mae rôl y Fforwm My Maternity My Way wedi dangos dulliau cydgynhyrchu effeithiol ac mae'n tynnu sylw at y ffordd y mae cyfranogiad wedi'i gynnwys yng ngwaith a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar bob lefel. Mae hanesion menywod am eu profiad o ofal mamolaeth yn cael eu clywed yn rheolaidd ar draws y Bwrdd Iechyd yn ei gyfarfodydd ac fel rhan o hyfforddiant staff, gan effeithio ar ddiwylliant a gwella dealltwriaeth o'u hanghenion, yn enwedig o ran cyfathrebu.

Mae sawl aelod o My Maternity My Way wedi cymryd rhan mewn paneli rhanddeiliaid a chyfweliadau i gefnogi'r gwaith o recriwtio aelodau allweddol o'r tîm mamolaeth, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Clinigol, Bydwraig Profiadau Menywod a'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth.

Mae anghenion a phrofiadau menywod a theuluoedd wedi bod wrth wraidd y gwaith o gydgyhyrchu gwybodaeth. Mae aelodau My Maternity My Way wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfres o daflenni gan gynnwys Geni Gartref, Ysgogi'r Esgor, Cyfnod Esgor Cychwynnol a gwybodaeth am Ganolfan Eni Tirion.

Mae eu cyfraniad wedi bod yn fwyaf gwerthfawr yn y gwaith o gydgyhyrchu 'Blychau atgofion' i gefnogi bondio ac atgofion ar gyfer rhai o'r menywod a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed lle mae babi mewn gofal maeth. Mae'r materion a nodwyd yn sgil ymgysylltu'n ehangach â menywod a theuluoedd bellach yn cael ei fwydo i mewn i is-grwpiau My Maternity My Way gyda'r Grwpiau Partneriaid Geni a Bwydo Babanod yn cwrdd i sicrhau bod anghenion a dymuniadau menywod a theuluoedd yn dylanwadu ar ddarparu gwasanaethau a gwella'n barhaus.

Mae menywod a theuluoedd sydd â chwestiynau parhaus ar ôl geni eu babi wedi gallu trafod eu profiad ymhellach drwy'r gwasanaeth Ôl-ystyriaethau. Yn ystod ei ymweliad sicrwydd clywodd y Panel sut mae'r gwasanaeth adborth hwn bellach hyd yn oed yn fwy hygyrch ar draws ardal ddaearyddol safleoedd yr ysbyty, gyda mwy o apwyntiadau ar gael i rannu profiadau a sicrhau bod menywod a theuluoedd yn cael y cymorth a'r atebion sydd eu hangen arnynt. Mae sesiynau adborth yn cael eu cynnal gyda mewnbwn gan y gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a phediatreg er mwyn i fenywod a theuluoedd gael ymateb cydlynol sy'n mynd i'r afael â'u cwestiynau ar y daith beichiogrwydd, genedigaeth ac ôl-enedigol.

Roedd y Panel wedi nodi yn ei adroddiad blaenorol y byddai gweithredu PREMs (Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion) yn sicrhau trefniadau casglu ac asesu systematig o brofiadau menywod ar sail ansawdd y gofal maen nhw'n ei gael, yn hytrach na chanolbwyntio ar eu statws iechyd neu ar ganlyniadau eu gofal a'u triniaeth. Mae'r arolygon wedi cael eu creu ar y cyd â'r menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac ers yr Hydref 2021 mae'r broses o gipio data ar gyfer y system yn fyw.

Cynhelir PREMs gan CIVICA ac mae'r system yn y Bwrdd Iechyd yn gynllun peilot ar gyfer pob bwrdd iechyd yng Nghymru. O ganlyniad, yn ogystal â data sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddadansoddi'n barhaus i roi darlun manwl o brofiadau menywod, mae'r system yn cael ei datblygu a'i hasesu ymhellach gydag unrhyw broblemau dylunio a darparu yn cael eu datrys mewn amser real. Er enghraifft, mae adborth gan fenywod wedi datgelu bod angen egluro rhai cwestiynau er mwyn gwella dealltwriaeth ac ansawdd yr ymatebion.

Bydd mireinio'r system, gan gynnwys sicrhau bod gwybodaeth gyswllt gywir ar gael i annog pobl i ymateb i'r arolwg, yn fanteisiol o ran adborth a nodi themâu ar gyfer y Bwrdd Iechyd ac, yn y pen draw, dyluniad a darpariaeth y system ledled Cymru.

Mae dadansoddi adborth wedi arwain at adroddiadau cynnar ar brif themâu'r Bwrdd Iechyd, sy'n cynnwys anghenion gwybodaeth, adborth ar welliannau i'r amgylchedd ôl-enedigol ac, yn anochel, adborth negyddol ar y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 o ran presenoldeb partneriaid mewn lleoliadau mamolaeth. Mae'r gwaith yn parhau i gynhyrchu adroddiadau ystyrllon, gan gynnwys map gwres o fis i fis ar y materion allweddol.

## **5.2 Camau Nesaf y Daith Ymgysylltu**

Yn adroddiad diwethaf y Panel, cydnabuwyd bod rhai o'r cyfyngiadau ar y gallu i ymgysylltu o ganlyniad i COVID-19 wedi arwain at oedi o ran cyn cyflwyno strategaeth ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd yn llawn. Roedd hi'n bwysig cynnal momentwm er mwyn sicrhau bod gwelliannau a dyluniad gwasanaethau'n darparu buddion gwirioneddol i fenywod, eu babanod a'u teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Felly, mae'r Panel yn hyderus bod y Bwrdd Iechyd nid yn unig wedi adennill y momentwm dros y chwe mis diwethaf ond hefyd wedi meithrin sylfaen gryfach ac ehangach ar gyfer ymgysylltu â menywod a theluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau mamolaeth, gyda strategaeth well sydd wedi'i chydabod fel un arweiniol ac arloesol ledled Cymru.

Mae'n bwysig bod tystiolaeth barhaus bod cynnyrch yr ymgysylltu hwnnw'n dylanwadu ar y gwelliant mewn gofal mamolaeth, diwylliant y sefydliad a dulliau cyfathrebu â staff.

Fodd bynnag, roedd ymarfer ymgysylltu 'gwrando ar deuluoedd' y Panel, a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad manwl o'r gwasanaethau newyddenedigol ac a oedd yn archwilio'r profiadau o ofal newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, wedi nodi cyfleoedd sylweddol i wella'r ffordd y mae menywod a theluoedd yn ymwneud â'u gofal, yn ogystal â sut y gallant gyfrannu at gynllunio a datblygu'r gwasanaeth.

Mae creu cyfleoedd i fenywod a theluoedd ymgysylltu drwy gydol eu beichiogrwydd, genedigaeth a gofal ôl-enedigol, yn ogystal ag o fewn eu profiad o ofal newyddenedigol, yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Iechyd dros y chwe mis nesaf.

Mae'r Panel yn ymwybodol y bydd My Maternity My Way yn gweithio gyda'r gwasanaeth newyddenedigol eleni i ddatblygu grŵp ymgysylltu ar gyfer rhieni a babanod sydd wedi defnyddio gwasanaeth newyddenedigol y Bwrdd Iechyd. Bydd Grŵp Profedigaeth hefyd yn cael ei ddatblygu i greu cyfleoedd i'r rheini sydd, yn anffodus, wedi dioddef colled beichiogrwydd a phrofedigaeth, gael rhoi adborth a nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau.

Dyma'r camau gweithredu a fyddai'n dangos bod gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ymgysylltu gynaliadwy sy'n darparu cyfleoedd cyson i ymgysylltu ar draws y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol:

- (i) dylai'r strategaeth ymgysylltu ddiwygiedig gael ei chyflwyno ymhellach fel bod y dulliau ymgysylltu a chyfathrebu sy'n adeiladu ar rwydweithiau a chysylltiadau lleol yn cyrraedd pob cymuned, yn enwedig y rhai a allai fod â'r anghenion mwyaf, darparu ffynhonnell o adborth rheolaidd am brofiadau menywod a theluoedd;
- (ii) mae'r systemau ar gyfer casglu a dadansoddi'r adborth o Fesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn, ac mae themâu a materion allweddol yn cael eu hadrodd mewn ffordd ystyrlon ac yn cael sylw mewn ffordd systematig;
- (iii) adrodd yn rheolaidd ar lefel uwch yn y Bwrdd Iechyd ynghylch tystiolaeth o newid a gwelliant o ganlyniad uniongyrchol i ymgysylltu â'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, ynghyd ag adborth rheolaidd i gleifion, y cyhoedd a chymunedau lleol sydd wedi bod yn ymwneud â hyn, drwy'r wefan, y cyfryngau cymdeithasol a dulliau hygyrch eraill;

- (iv) y gwasanaeth newyddenedigol yn rhoi mwy o bwyslais ar strategaeth, dyluniad a darpariaeth y dulliau ymgysylltu â theuluoedd, gan gynnwys cysylltu a meithrin perthynas â defnyddwyr y gwasanaeth yn ddiweddar ac yn y gorffennol ac, yn anad dim, dangos ei fod wedi dysgu o'r dull gweithredu ym maes mamolaeth a'i fod yn datblygu dull integredig o ymgysylltu a chyfathrebu wrth symud ymlaen.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y camau nesaf pwysig yma, ac mae'n sicrhau bod y camau gweithredu sy'n angenrheidiol yn cael eu cynnwys yn y cynllun cerrig milltir. Bydd y Panel yn parhau i fonitro datblygiadau i sicrhau bod y camau gweithredu'n arwain at ganlyniadau pendant i fenywod a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Strategaeth Ymgysylltu Mamolaeth**

Mae'r strategaeth yn cael ei chyflawni yn unol â'r cynllun a'r amserlen; mae'r broses Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion (PREMs) wedi'i sefydlu; mae tystiolaeth bod allbynnau PREMs a data o ffynonellau ymgysylltu eraill yn cael eu gwerthuso'n systematig ac yn arwain at welliannau pendant i'r gwasanaeth.

## **5.3 Cwynion a Phryderon**

Yn ei adroddiad diwethaf, cydnabu'r Panel, er bod ymatebion mwy prydlon wedi bod i gwynion a phryderon, ei fod yn edrych yn debyg ei fod wedi cymryd cam yn ôl yn gysylltiedig â newid i strwythurau'r Grŵp Ardal Integredig. Roedd gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu cysylltiadau cryfach yn y gwasanaeth unwaith eto, i sicrhau nad yw'r gwersi gwerthfawr a ddysgwyd yn cael eu colli. Roedd y Panel a'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod hyn yn rhywbeth y byddai angen ei fonitro yn y dyfodol.

Dros y misoedd diwethaf, mae trafodaethau yn ystod ymweliad sicrwydd y Panel, canfyddiadau archwiliadau mewnol yn ogystal ag adborth o ffynonellau annibynnol wedi tynnu sylw at faterion parhaus sy'n ymwneud ag oedi wrth ymateb i gwynion a phryderon, ansawdd yr ymatebion, diffyg ymateb ar draws safleoedd a methu â dangos y dysgwyd yn systematig o'r canfyddiadau.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y problemau hyn ac mae'n gwneud rhagor o waith, gan gynnwys ail archwiliad a chynyddu adnoddau a ffocws ar lefel safleoedd ysbyty i wella ansawdd, tegwch a phrydlondeb yr ymatebion, yn ogystal â sicrhau bod proses a fframwaith cadarn i ddangos y dysgir o ymchwiliadau a chanlyniadau. Bydd y Panel yn parhau i fonitro cynnydd y camau a amlinellwyd.

## 6 Y Camau Nesaf ac Argymhellion

Dros y chwe mis diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i wneud mwy o gynnydd graddol mewn perthynas â'i wasanaeth mamolaeth, ac mae'r trefniadau rheoli rhaglenni sydd wedi cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r broses wella ehangach wedi cael eu cryfhau ymhellach.

Mae'n amlwg bod teithiau'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol tuag at welliant ar gamau gwahanol. Fodd bynnag, mae datblygiadau cadarnhaol wedi cael eu gwneud ym mhob un o'r 19 maes a nodwyd gan yr adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol fel rhai y mae angen gweithredu arnynt ar frys, gyda gwaith paratoi wedi'i gwblhau a rhai canlyniadau cynnar wedi'u cynhyrchu.

Mae'n bwysig nawr bod momentwm yn cael ei gynnal yn rhaglen gwella'r gwasanaeth newyddenedigol ac mae'r Panel yn croesawu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i gyflymu'r ddarpariaeth yn ystod y misoedd nesaf.

### 6.1 Sicrhau Gwelliant Cynaliadwy

Gwelir o'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn bod y Bwrdd Iechyd yn symud yn raddol y tu hwnt i'w ffocws cychwynnol ar gryfhau ei systemau a'i brosesau tuag at raglen drawsnewidiol tymor hwy a fydd, os cânt eu cyflwyno'n llwyddiannus, yn sicrhau bod y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol nid yn unig yn ddiogel ac yn addas i'r diben ond hefyd yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Mae'r Bwrdd hefyd yn cymryd mwy a mwy o berchnogaeth dros y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ac yn sicrhau ei bod yn cael ei hymgorffori yn y ddarpariaeth o ddydd i ddydd ac yng nghynlluniau datblygu strategol ehangach y sefydliad.

Mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd, mae'r Panel wedi nodi ac wedi cytuno ar set o amodau a fydd, ym marn y Panel, yn rhoi sicrwydd rhesymol bod taith tuag at welliant y Bwrdd Iechyd yn gynaliadwy. Mae'r amodau hyn, y cyfeirir atynt gan y Panel fel 'amodau ar gyfer cynaliadwyedd', wedi cael eu hamlygu drwy gydol yr adroddiad hwn mewn blychau piws sy'n cyd-fynd â'r meysydd gwaith y maent yn perthyn iddynt. Maen nhw hefyd yn cael eu hamlinellu yn Atodiad E.

Wrth ddatblygu'r amodau ar gyfer cynaliadwyedd roedd y Panel yn awyddus i osgoi creu set arall o amcanion a fyddai'n tynnu sylw'r Bwrdd Iechyd oddi ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella gwasanaethau. Ar sail hynny, mae'r amodau'n canolbwyntio ar y pethau a ddylai fod ar waith yn ystod y chwech i naw mis nesaf o ganlyniad uniongyrchol i'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni yn erbyn y map, y cynllun cerrig milltir a'r weledigaeth a'r strategaeth tymor hwy y mae'n eu datblygu ac yn parhau i'w datblygu.

Mae'r Panel wedi ceisio gwneud yr amodau mor wrthrychol â phosibl, ond pan fydd elfen o oddrychedd, mae hyn wedi'i gysylltu â'r prosesau asesu presennol sydd eisoes ar waith fel rhan o'r trefniadau gweithio presennol.

Mae'r Panel hefyd wedi ceisio gwneud yr amodau mor benodol â phosibl fel bod dealltwriaeth glir yn cael ei rhannu o'r hyn a ddisgwylir; dros yr wythnosau nesaf bydd yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddiffinio'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos bod pob un o'r amodau wedi'u cyflawni.

Mae'r Panel yn credu, os bydd y sefyllfa'n datblygu yn unol â'r disgwyl dros y chwe mis nesaf, y dylai'r Panel fod mewn sefyllfa pan fydd yn cyflwyno'i adroddiad nesaf ym mis Medi 2022 i roi asesiad i'r Gweinidog ynghylch a yw'n credu bod taith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant yn gynaliadwy. Bydd hynny wedyn yn galluogi'r Gweinidog, petai'n dymuno, i ystyried beth sy'n angenrheidiol o ran goruchwyliaeth allanol barhaus yn y dyfodol.

## **6.2 Rhaglen Cymorth Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol**

Ar 24 Ionawr 2022, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru i wella ansawdd gofal mamolaeth a newyddenedigol ledled Cymru. Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd y byddai Rhaglen Cymorth Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol yn cael ei datblygu dan arweiniad y Prif Swyddog Nyrsio a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol. Gallwch weld copi o ddatganiad y Gweinidog [yma](#).

Rhagwelir y bydd y rhaglen hon yn galluogi dull gweithredu clir a chyson ar gyfer diogelwch gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ledled Cymru. Mae'n cael ei ddatblygu, yn rhannol, ar sail yr hyn a ddysgwyd gan Gwm Taf Morgannwg, gan adeiladu ar Fframwaith Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Bwriedir i'r rhaglen nodi'r fframweithiau, y llwybrau a'r metrigau y mae angen eu datblygu i alluogi hyn ar lefel leol a chenedlaethol.

Yn ystod cam cyntaf y rhaglen, mae Gwelliant Cymru wedi cael ei gomisiynu i weithio ochr yn ochr â sefydliadau iechyd yng Nghymru, gan ddarparu arbenigedd a datblygu asesiad annibynnol o'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer goruchwyllo gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol er mwyn nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwelliannau. Bydd y Panel yn gweithio'n agos gyda Gwelliant Cymru i sicrhau bod y dysgu o'i Raglen Adolygiadau Clinigol a'i waith ehangach yn hysbysu cam darganfod cychwynnol y rhaglen.

I gefnogi hynny, rhagwelir y bydd yr uwchgynhadledd genedlaethol ar famolaeth a gofal newyddenedigol yn cael ei chynnal gan y Prif Swyddog Nyrsio yn ystod yr Haf 2022. Bydd yn dwyn ynghyd y dysgu sydd wedi deillio o waith y Panel yn ogystal ag adroddiadau allweddol ac archwiliadau cenedlaethol eraill er mwyn ystyried sut y gellir osgoi materion tebyg i'r rhai a ddaeth i'r amlwg yng nghyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn y dyfodol.

Bydd yr uwchgynhadledd yn llywio camau nesaf y Rhaglen Cymorth Diogelwch Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol, gan sicrhau bod y dysgu sydd wedi deillio o waith y Panel gyda'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at ddarparu gofal diogel, effeithiol, o ansawdd uchel i famau, babanod a'u teuluoedd ledled Cymru.

### 6.3 Argymhelliad

Byddai'r Panel yn gwahodd y Gweinidog i ystyried un argymhelliad sy'n codi o'r adroddiad hwn sy'n ymwneud â'r camau nesaf yn y Rhaglen Adolygiadau Clinigol ac yn benodol, i ystyried a oes angen ymarfer golwg yn ôl arall y tu hwnt i 2016. Ceir mwy o fanylion yn Adran 4.6 yr adroddiad.

#### **Argymhelliad Un – Golwg yn ôl cyn-2016**

Dylai'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol bresennol ddod i ben pan fydd cam presennol y gweithgarwch yn gorffen. Dylai rôl y Panel o ran rheoli a goruchwylio'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol ddod i ben ar yr un pryd ac fe ddylai'r Bwrdd Iechyd reoli'r broses yn y dyfodol gyda goruchwyliaeth gan Lywodraeth Cymru.

Dylai'r broses hunangyfeirio bresennol symud i broses sy'n cael ei harwain gan y Bwrdd Iechyd, yn seiliedig ar egwyddorion y prosesau Gweithio i Wella presennol, a fyddai'n cynnig cymorth i'r menywod a'r teuluoedd hynny sy'n dal i fynnu atebion am y gofal a gawsant cyn 2016.

## 7 Atodiad A – Atodlen o Argymhellion ‘Agored’ y Colegau Brenhinol

	Disgrifiad o'r Argymhelliad	Statws y Cytunwyd Arno
7.1	Adolygu'r systemau sydd ar waith ar frys ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> <li>• casglu data,</li> <li>• dilysu clinigol,</li> <li>• gwirio cywirdeb y data a ddefnyddir i fonitro ymarfer clinigol a chanlyniadau,</li> <li>• a pha wybodaeth a ddarperir i archwiliadau cenedlaethol.</li> </ul>	<b>Wedi cau:</b> Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn bodloni gofynion yr argymhelliad.
7.7	Sicrhau amgylchedd o breifatrwydd ac urddas i fenywod sy'n cael erthyliad neu gamesgoriad yn unol â'r safonau gofal cenedlaethol y cytunir arnynt.	<b>Wedi cau gyda'r holl elfennau ar ôl:</b> Nid oedd y dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn bodloni gofynion yr argymhelliad, Mae angen adolygu'r cynlluniau ar gyfer yr Uned Asesu Gynaecoleg yn fanwl ac mae angen ychwanegu dyddiadau cwblhau allweddol at y cynllun gwella.
7.8	Hwyluso arbenigwr allanol i ganiatáu adolygiad llawn o'r arferion gwaith er mwyn sicrhau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod diogelwch cleifion yn cael ei ystyried ym mhob cam o ddarparu gwasanaeth,</li> <li>• adolygiad llawn o rolau a chyfrifoldebau o fewn y tîm obstetrig,</li> <li>• datblygu a rhoi canllawiau ar waith,</li> <li>• system wedi'i hyfforddi a'i chefnogi'n briodol ar gyfer arweinyddiaeth glinigol,</li> <li>• cynllun a strategaeth tymor hir ar gyfer y gwasanaeth,</li> <li>• bod rhaglen o ddatblygu diwylliannol ar gael i ganiatáu gweithio amlddisgyblaethol go iawn.</li> </ul>	<b>Cau Gweinyddol:</b> Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn flaenrol yn bodloni'r gofyniad ar gyfer rhai elfennau o'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, mae'r agweddau sy'n weddill yn gorgyffwrdd â'r gwaith datblygu strategaethau (7.67) ac yn ei ddyblygu.
7.17	Sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i holl staff SAS i sicrhau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• eu bod yn gyfarwydd â'r cymwyseddau clinigol diweddaraf,</li> <li>• eu bod yn meddu ar y sgiliau i ymdrin â chlinigau cynenedigol risg uchel a sesiynau cleifion allanol.</li> </ul>	<b>Wedi cau:</b> Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn bodloni gofynion yr argymhelliad.



	<b>Disgrifiad o'r Argymhelliad</b>	<b>Statws y Cytunwyd Arno</b>
<b>7.19</b>	<p>Sicrhau bod system ar gyfer nodi, graddio ac ymchwilio i achosion difrifol wedi'i gwreiddio yn yr ymarfer, drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• hyfforddiant priodol i aelodau staff allweddol,</li> <li>• gwneud ymchwiliadau amlddisgyblaethol a chynnwys aseswyr allanol.</li> </ul>	<p><b>Wedi cau:</b> Mae'r Panel yn nodi mai megis dechrau mae mewnbwn neonatoleg allanol i'r ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol. Serch hynny, bydd yn cael ei nodi mewn ymateb i gam uwchgyfeirio 7 yn adolygiad manwl y gwasanaeth newyddenedigol (gweler Atodiad C am ragor o fanylion).</p>
<b>7.20</b>	<p>Mynd ati i gael gwared ar y 'diwylliant bwrw bai' i ganiatáu i'r holl staff ddatblygu parodrwydd i adrodd achosion difrifol a dysgu o achosion difrifol.</p>	<p><b>Wedi cau:</b> Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn bodloni gofynion yr argymhelliad.</p>
<b>7.31</b>	<p>Sicrhau bod cynllun cadarn o enedigaethau yn cael ei gyflawni ym mhob uned sy'n cael ei harwain gan fydwagedd ac uned dan arweiniad meddygon ymgynghorol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod staff paediatreg yn cymryd rhan yn yr holl adolygiadau a chamau gweithredu ar gyfer dylunio gwasanaethau yn y dyfodol.</li> </ul>	<p><b>Wedi cau gyda rhai elfennau ar ôl:</b> Mae angen i waith datblygu strategaethau gynnwys cynllunio demograffig tymor hir a modelu ar gyfer genedigaethau yn y dyfodol. Dylai hyn gael ei gwblhau ar y cyd gan y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn seiliedig ar egwyddorion newid gwasanaeth strategol y cytunwyd arnynt.</p>
<b>7.35</b>	<p>Cynnal asesiad o anghenion hyfforddiant yr holl staff i nodi bylchau mewn sgiliau ac i dargedu hyfforddiant ychwanegol.</p>	<p><b>Wedi cau gyda rhai elfennau ar ôl:</b> Mae angen i gynlluniau'r rhaglen wella ddangos cydymffurfiaid â hyfforddiant statudol a chwblhau Dadansoddiad o Anghenion Dysgu sy'n adeiladu ar y Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi sydd eisoes ar waith ar gyfer gwasanaethau mamolaeth.</p>
<b>7.44</b>	<p>Cefnogi hyfforddiant mewn arweinyddiaeth glinigol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhaid i'r Bwrdd lechyd ganiatáu digon o amser a chefnogaeth i arweinyddiaeth glinigol weithredu.</li> </ul>	<p><b>Wedi cau gyda rhai elfennau ar ôl:</b> Mae angen i gynlluniau'r rhaglen wella gynnwys gweithgareddau'r Cynllun Datblygu Arweinyddiaeth y cytunwyd arnynt.</p>

	<b>Disgrifiad o'r Argymhelliad</b>	<b>Statws y Cytunwyd Arno</b>
<b>7.45</b>	<p>Darparu mentora a chefnogaeth i'r Cyfarwyddwr Clinigol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• diffinio cyfrifoldebau'r rôl hon,</li> <li>• sicrhau bod dangosyddion perfformiad mesuradwy,</li> <li>• sicrhau cyngor AD gwybodus i reoli absenoldeb cydweithwyr yn gyson yn ogystal â defnyddio staff i ddiwallu anghenion y gwasanaeth,</li> <li>• ystyried cyfeillio â Chyfarwyddwr Clinigol o Fwrdd Iechyd cyfagos.</li> </ul>	<p><b>Wedi cau:</b> Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn bodloni gofynion yr argymhelliad.</p>
<b>7.51</b>	<p>Sicrhau bod ymatebion i gwynion a phryderon yn ganolog i'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella dulliau llywodraethu a diogelwch cleifion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu a gwella hyfforddiant staff ar werth gwranddo ar fenywod a theuluoedd,</li> <li>• Adolygu'r broses o ymchwilio i bryderon, casglu ymatebion, delio â materion 'yn y fan a'r lle' a sicrhau bod pob ymateb a thrafodaeth yn seiliedig ar ymchwiliadau cynhwysfawr a nodiadau cywir,</li> <li>• Blaenoriaethu'r prif faterion y mae menywod a theuluoedd wedi tynnu sylw atynt er mwyn ymateb yn well,</li> <li>• Sicrhau bod addewidion o rannu nodiadau a darparu adroddiadau i deuluoedd yn cael eu gwireddu,</li> <li>• Egluro'r broses o ran triongli'r ystod o ffynonellau gwybodaeth ar brofiad cleifion, achosion difrifol, cwynion a phryderon a data arall a sicrhau bod dull gweithredu trwyadl ar waith i wneud synnwyr o batrymau diogelwch a materion ansawdd,</li> <li>• Adolygu'r hyn a ddysgwyd o'r achosion difrifol mewn perthynas â chamddiagnosis, methu â gofyn am ail farn a phenderfyniad amhriodol i ryddhau cleifion.</li> </ul>	<p><b>Wedi cau gyda'r holl elfennau ar ôl:</b> Mae angen i gynlluniau'r rhaglen wella gynnwys gwreiddio cwynion, pryderon a digwyddiadau clinigol yn y gwaith o lywodraethu gwasanaethau, gydag adroddiadau rheolaidd, gwelliannau i wasanaethau sy'n deillio o'r data, ac adroddiadau thematig cyfnodol.</p>
<b>7.56</b>	<p>Darparu hyfforddiant i staff ar sgiliau cyfathrebu, yn enwedig ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Empathi, tosturi a charedigrwydd.</li> </ul>	<p><b>Wedi cau gyda'r holl elfennau ar ôl:</b> Mae angen i gynlluniau'r rhaglen wella gynnwys gweithgareddau'r Cynllun Datblygu Diwylliant.</p>

	<b>Disgrifiad o'r Argymhelliad</b>	<b>Statws y Cytunwyd Arno</b>
<b>7.63</b>	Rhaid i aelodau Annibynnol o'r Bwrdd herio ansawdd y data sy'n sail i'r adroddiadau y maent yn eu derbyn ac yn dibynnu arnynt am sicrwydd.	<b>Wedi cau gyda rhai elfennau ar ôl:</b> Mae angen datblygu Dangosfwrdd Gwasanaeth Mamolaeth a diwylliant adrodd sy'n seiliedig ar ddata er mwyn galluogi Aelodau i wneud penderfyniadau annibynnol. Mae angen cynnwys hyn yng nghynlluniau'r rhaglenni gwella tymor hwy.
<b>7.67</b>	Datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth a defnyddio'r cyfle presennol i newid er mwyn creu gwasanaeth modern sy'n ymateb i'r menywod a'u teuluoedd a'r staff sy'n darparu gofal.	<b>Wedi cau gyda'r holl elfennau ar ôl:</b> Mae angen i gynlluniau'r rhaglen wella gynnwys cynlluniau i ddatblygu strategaeth ar gyfer y gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yng nghyd-destun y strategaeth CTM2030 ehangach.
<b>7.70</b>	Sicrhau bod unrhyw newid i'r gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer proses ddatblygu'r gwasanaeth mamolaeth yn ei gyfanrwydd yn gynhwysol i'r holl staff a defnyddwyr y gwasanaeth. <ul style="list-style-type: none"> <li>•Sicrhau bod digon o staff yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod yr holl grwpiau staff yn gallu cyfrannu at ddatblygu'r weledigaeth</li> <li>•Ystyried proses a hwylusir ac a gefnogir yn allanol ar gyfer yr adolygiad.</li> <li>•Ystyried ceisio cefnogaeth barhaus gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r Colegau Brenhinol er mwyn cynnal adolygiad diagnostig o'r gwasanaeth, yn enwedig mewn perthynas â newidiadau mewn darpariaethau gwasanaeth.</li> </ul>	<b>Cau gweinyddol:</b> Oherwydd gorgyffwrdd sylweddol, mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei gyfuno â <b>7.67</b> .

## 8 Atodiad B – Atodlen o Argymhellion ‘Dilynol’ y Colegau Brenhinol

	Disgrifiad o'r Argymhelliad	Statws y Cytunwyd Arno
7.5	Cytuno ar raglen hyfforddi CTG sy'n cynnwys asesiad o gymhwysedd a ddarperir i'r holl staff sy'n rhan o ofal merched beichiog, yn y cyfnod cynenedigol ac yn ystod genedigaeth.	<b>Wedi cau:</b> Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn bodloni gofynion yr argymhelliad. Dangosir cydymffurfiad â hyfforddiant yn yr elfen sy'n weddill sef <b>7.35</b> .
7.18	Cytuno ar ddulliau cydlynol o weithio gydag ymgynghorwyr ar ôl yr uno gyda mewnbwn gan gydweithwyr anaestheteg a phediatreg.	<b>Wedi cau:</b> Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn bodloni gofynion yr argymhelliad.
7.22	Trafod canlyniadau achosion difrifol lle roedd meddyg ymgynghorol yn rhan o'u harfarniad.	<b>Wedi cau:</b> Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn bodloni gofynion yr argymhelliad.
7.23	Gwella'r ffordd o ddysgu gwersi ar ôl achosion drwy rannu canlyniadau achosion difrifol yn rheolaidd ac mewn fformat cyson, priodol a hawdd ei ddeall.	<b>Wedi cau:</b> Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn bodloni gofynion yr argymhelliad.
7.27	Ystyried adnoddau ychwanegol i'r tîm Llywodraethu a Risg Mamolaeth er mwyn sicrhau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod modd rheoli'r llwyth gwaith,</li> <li>• bod Datix yn cael ei adolygu, ei raddio a'i roi ar waith mewn modd priodol ac amserol.</li> </ul>	<b>Wedi cau gyda rhai elfennau ar ôl:</b> Mae angen i gynlluniau'r rhaglen wella gynnwys adolygiad o ddulliau cyllido ymhen chwe mis.

	<b>Disgrifiad o'r Argymhelliad</b>	<b>Statws y Cytunwyd Arno</b>
<b>7.30</b>	<p>Sicrhau bod y Cyfarwyddwr Meddygol yn arfer goruchwyliaeth a rheolaeth effeithiol dros gorff y meddygon ymgynghorol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau eu bod ar gael ac yn ymateb i anghenion y gwasanaeth,</li> <li>• adolygu a chytuno ar gynlluniau gwaith ar frys i sicrhau bod anghenion y gwasanaeth yn cael eu diwallu,</li> <li>• egluro'r hyn sydd i'w drin fel rhan o weithgarwch SPA (archwilio, llywodraethu, addysgu, canllawiau, sicrhau data, hyfforddi mwy o obstetryddion ymgynghorol fel gwerthuswyr),</li> <li>• sicrhau bod y menywod sy'n fwyaf sâl yn cael eu gweld gan feddyg ymgynghorol yn y lle cyntaf a bod pob menyw yn cael ei gweld gan feddyg ymgynghorol cyn pen 12 awr yn unol ag argymhelliad NCEPOD (safon genedlaethol).</li> </ul>	<p><b>Wedi cau gyda rhai elfennau ar ôl:</b> Mae angen i gynlluniau'r rhaglen wella gynnwys archwiliad ymhen chwe mis i asesu'r cyfartaledd ac ystod yr amser a gymerir i dderbyniadau brys gael eu hadolygu ar lefel meddyg ymgynghorol.</p>
<b>7.32</b>	<p>Sicrhau bod obstetrydd ymgynghorol wrth gefn ar gael ym mhob maes clinigol pan fo angen drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adolygu'r amserlenni clinigol i sicrhau bod darpariaeth 12 awr y dydd ar y ward geni yn cael ei chyflawni,</li> <li>• cynnal cyfres o ymweliadau ag unedau lle mae presenoldeb estynedig gan feddygon ymgynghorol ar y ward geni wedi cael ei roi ar waith,</li> <li>• ystyried gweithio mewn timau i sicrhau bod uwch aelod o'r tîm ar gael mewn clinigau ac yn trawsgyflenwi i'w gilydd,</li> <li>• ystyried defnyddio amser ymgynghorwyr yn greadigol mewn oriau rheolaidd a thu allan i oriau arferol er mwyn cyfyngu ar y defnydd o feddygon locwm.</li> </ul>	<p><b>Wedi cau:</b> Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn bodloni gofynion yr argymhelliad.</p>
<b>7.36</b>	<p>Rhaid sefydlu goruchwyliaeth glinigol a goruchwyliaeth gan feddygon ymgynghorol dros weithdrefnau ymarferol ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys bydwragedd arbenigol a meddygon staff.</p>	<p><b>Wedi cau:</b> Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn bodloni gofynion yr argymhelliad.</p>

	<b>Disgrifiad o'r Argymhelliad</b>	<b>Statws y Cytunwyd Arno</b>
<b>7.37</b>	<p>Datblygu rhaglen dysgu amlddisgyblaethol effeithiol i'r adran gyfan.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhaid ei chyllido'n ddigonol a rhaid neilltuo amser i'r holl grwpiau staff fod yn bresennol, gan gynnwys bydwagedd clinigol arbenigol a meddygon SAS.</li> <li>• rhaid monitro presenoldeb a'i adolygu yn ystod y gwerthusiad.</li> </ul>	<b>Wedi cau:</b> Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn bodloni gofynion yr argymhelliad.
<b>7.40</b>	<p>Adolygu sgiliau a chymwyseddau'r bydwagedd clinigol uwch sy'n cyflenwi dyletswyddau meddygon haen 1 er mwyn sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod eu cwmpas ymarfer wedi'i ddiffinio'n glir,</li> <li>• bod y Bwrdd Iechyd a'r unigolion yn cael eu diogelu rhag risg ymglyfreitha ar gyfer eu rolau estynedig.</li> </ul>	<b>Cau gweinyddol:</b> Dydy'r rolau a nodwyd ddim yn bodoli mwyach.

## 9 Atodiad C – Cynnydd yn Erbyn Camau Brys yr Adolygiad Manwl o'r Gwasanaeth Newyddenedigol

	Angen Gwella	Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno	Safle
<b>ESC. 1</b>	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno mesurau diogelu ar unwaith i gefnogi'r broses o roi presgripsiynau'n ddiogel yn ymarferol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canllawiau presgripsiynu da ar gael ac yn cael eu harddangos i'r holl grwpiau staff eu defnyddio.</li> <li>• Hyfforddiant staff i'r holl staff ar bresgripsiynu</li> <li>• Staff i wrthod presgripsiynau nad ydynt yn dilyn y canllawiau presgripsiynu da.</li> <li>• Taflen nodiadau wrth y cot ar gyfer nyrsys ar ffurf pwyntiau bwled er mwyn gwirio camau ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn ddiogel.</li> </ul>	<b>Wedi'i Gyflawni</b>
<b>ESC. 2</b>	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd barhau i ddangos gwelliant yn y berthynas waith gyda'r gwasanaethau mamolaeth mewn sawl maes.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwybr y groth i sicrhau cynllun clir ar gyfer asesu a throsglwyddo menywod beichiog sydd mewn perygl o fod angen gofal dwys i'r newydd-anedig, yn benodol y rheini sydd y tu allan i gwmpas ymarfer ar gyfer gwasanaeth newyddenedigol y Bwrdd Iechyd.</li> <li>• Prosesau clir i nodi newid canlyniadau lle nad yw'n bosibl ymgymryd â throsglwyddiad mewngroth, gan gynnwys tystiolaeth o adolygiad trylwyr o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau a rheoli gwasanaethau mamolaeth.</li> <li>• Dulliau archwilio ac adborth parhaus safonol i dimau clinigol, y Bwrdd a'r rhwydwaith mewn perthynas ag achosion.</li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>

	<b>Angen Gwella</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Safle</b>
<b>ESC. 3</b>	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y meddyg ymgynghorol sydd ar gael ar gyfer y gwasanaeth newyddenedigol yn ddiogel ac yn effeithiol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r meddygon ymgynghorol sy'n darparu gofal newyddenedigol ymgymryd ag o leiaf 4 wythnos gwasanaeth y flwyddyn er mwyn sicrhau mwy o gysondeb i'r tîm newyddenedigol a'r babanod sy'n cael gofal.</li> <li>• Nodi grŵp craidd o feddygon ymgynghorol sy'n rhannu cyfrifoldeb dros, yn goruchwyllo gwaith a safonau'r grŵp ehangach o feddygon ymgynghorol, ac yn arwain y gwasanaeth.</li> <li>• Dylid ymestyn gwasanaeth meddyg ymgynghorol yn yr uned babanod newydd-anedig ar unwaith i 8.30am-4.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.</li> <li>• Rhaid i feddygon ymgynghorol sydd â diddordeb newyddenedigol gael amser wedi'i neilltuo i sicrhau bod y gwasanaeth newyddenedigol yn cael ei ddarparu gan uwch staff meddygol sy'n deall yr arbenigedd sydd ei angen i gefnogi gwasanaeth newyddenedigol diogel a chydabod pan fydd angen uwchgyfeirio i wasanaethau NICU i gael cyngor neu i drosglwyddo.</li> </ul>	<b>Wedi'i Gyflawni</b>
<b>ESC. 4</b>	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gwelliannau'n cael eu rhoi ar waith ar unwaith i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau clinigol arbenigol ar gyfer y cleifion mwyaf sâl ac agored i niwed yn y gwasanaeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r trothwy atgyfeirio ar gyfer cyngor gan NICU enwebedig gael ei nodi'n glir ar gyfer yr holl staff clinigol a dylai fod ar lefel lle mae unrhyw fabi ag anghenion cymhleth neu sydd angen triniaeth mewn uned gofal dwys yn cael ei drafod ar y cyfle cyntaf i gydweithwyr sicrhau bod clinigwyr arbenigol yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau clinigol ar unwaith.</li> <li>• Dylid rhoi proses glir ar waith i sicrhau ymgodiad cynnar parhaus i'r holl fabanod sydd angen triniaeth mewn uned gofal dwys er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trosglwyddo'n amserol.</li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>



	<b>Angen Gwella</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Safle</b>
<b>ESC. 5</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd adolygu ei arferion oeri yn unol â fframweithiau cenedlaethol a sicrhau bod arferion lleol yn cyrraedd y safon hon.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i'r holl staff fod â chymhwyster cyfredol i ddefnyddio'r holl offer a ddefnyddir yn y driniaeth oeri.</li> <li>• Dylai safonau'r dogfennau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ar gyfer oeri gynnwys y canlynol, o leiaf: y meini prawf a fodlonir a sut, archwiliad niwrolegol manwl llawn a manylion llawn sgwrs â NICU/CHANTS.</li> <li>• Dylid parhau i ddefnyddio llwybr Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru i ategu dogfennau meddygol a nyrsio sy'n ymwneud ag oeri er mwyn helpu i roi arferion oeri diogel ar waith.</li> <li>• Rhaid i bob achos lle cafodd baban driniaeth oeri gael adolygiad manwl safonol gan y Tîm Amlddisgyblaethol ochr yn ochr â'r gwasanaeth mamolaeth.</li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>
<b>ESC. 6</b>	Dylai'r Bwrdd lechyd fynd ati ar unwaith i adolygu pob achos o dynnu tiwb endotracheaidd heb ei gynllunio sy'n digwydd yn y gwasanaeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cael dealltwriaeth o gyfraddau tynnu tiwb endotracheaidd heb ei gynllunio fesul 1000 o ddiwrnodau ar beiriant anadlu o'i gymharu â nifer yr achosion a ddisgrifir yn genedlaethol.</li> <li>• Dylai gwaith gwella lleol ar y mater hwn ddigwydd ar y cyd â NICU lleol er mwyn deall yr arferion a'r mesurau diogelu sydd eisoes ar gael i'w haddasu ar gyfer y gwasanaeth yn y Bwrdd lechyd.</li> <li>• Datix/archwiliad ar gyfer pob achos o dynnu tiwb endotracheaidd heb ei gynllunio.</li> <li>• Newidiadau o ran sicrhau arferion i atal achosion o dynnu tiwb endotracheaidd.</li> </ul> <p><b>(Sylwer:</b> ers uwchgyfeirio ni roddwyd gwybod am unrhyw achosion o dynnu tiwb endotracheaidd)</p>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>

	<b>Angen Gwella</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Safle</b>
<b>ESC. 7</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod adolygiadau o ddigwyddiadau clinigol, adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol ac adolygiadau o Farwoldeb/ PMRT yn cael eu cynnal fel Tîm Amlddisgyblaethol gyda chymorth allanol cydweithwyr yn y NICU lleol i gwestiynu a darparu arbenigedd clinigol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu a monitro prosesau achosion difrifol gan chwilio am arbenigedd clinigol ychwanegol pan fo angen i gefnogi dysgu lleol ynghylch sut beth yw adolygiad da.</li> <li>• Ymgysylltu'n ehangach â'r Bwrdd lechyd mewn adolygiadau llywodraethu gan y tîm diogelwch cleifion corfforaethol.</li> <li>• Sicrhau bod adborth amserol yn cael ei roi i staff sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn ogystal â gwybodaeth am wersi a ddysgwyd er mwyn osgoi digwyddiadau o niwed sy'n digwydd dro ar ôl tro.</li> <li>• Rhaid disgrifio newidiadau mewn ymarfer y cytunwyd arnynt yn eu cyd-destun i sicrhau bod staff yn deall rhesymeg a chanlyniad disgwylidig y newidiadau.</li> <li>• Rhestr Trothwyon Datix ar gyfer y gwasanaeth newyddenedigol i'w diweddarau, gan gynnwys: trosglwyddiadau, babanod wedi'u geni &lt;32/40, derbyniadau cyfnod llawn, achosion o dynnu tiwb endotracheaidd heb ei gynllunio.</li> <li>• Cyfathrebu â staff gan dynnu sylw at newidiadau i'r rhestr trothwyon a pham mae'r rhain wedi cael eu hychwanegu.</li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>
<b>ESC. 8</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd barhau i ddatblygu dull cadarn ar gyfer adolygu'r holl dderbyniadau cyfnod llawn i'r uned babanod newydd-anedig ochr yn ochr â chydweithwyr obstetreg a mamolaeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i themâu a'r hyn a ddysgir o adolygiadau Derbyniadau Cyfnod Llawn gael eu rhannu â'r timau ehangach a dylid rhoi ymyriadau uniongyrchol ar waith ar unwaith, sydd wedi'u nodi i leihau'r nifer sy'n cael eu derbyn yn ddiangen.</li> <li>• Cymorth a chynghor gan y gwasanaeth NICU lleol lle mae'r broses hon wedi'i hen sefydlu o ran sut y gellir lleihau derbyniadau cyfnod llawn</li> <li>• Parhau i gwblhau Datix ar gyfer pob derbyniad cyfnod llawn.</li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>


	<b>Angen Gwella</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Safle</b>
<b>ESC. 9</b>	Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r dulliau adrodd radioleg ffurfiol presennol a gofyn am adolygiad allanol gan radiolegydd pediatrig gyda phrofiad newyddenedigol i dynnu sylw at feysydd sy'n peri pryder.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofyn am gymorth gan radiolegydd pediatrig o ganolfan drydyddol i archwilio adroddiadau radioleg ffurfiol diweddar.</li> <li>• Sicrhau bod yr holl luniau radioleg yn cael eu hadolygu a'u dehongli gan feddyg ymgynghorol yn y gwasanaeth newyddenedigol a bod cofnod yn cael ei gadw o hynny.</li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>
<b>ESC. 10</b>	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd adolygu dogfennau ar unwaith a chyflwyno dogfennau ategol i helpu i wella safonau dogfennau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfathrebu ac addysg/hyfforddiant i'r holl staff ynghylch safonau dogfennau yn unol â'r cyrff llywodraethu.</li> <li>• Cyflwyno dogfennau ategol: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Siart gweithdrefnau gyda blaenoriaeth ar gyfer mewndiwbio; mynediad canolog a draeniau'r frest;</li> <li>○ Siart ar gyfer cofnodi cyfathrebu gyda NICU i gael cyngor;</li> <li>○ Siart ar gyfer cofnodi atgyfeiriadau at CHANTS ar gyfer trosglwyddo;</li> <li>○ Taflen ysgrifennu ar gyfer rheoli dadebru yn yr NNU a'r Ystafell Geni.</li> </ul> </li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>
<b>ESC. 11</b>	Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried camau gweithredu i gefnogi gweithio gyda theuluoedd i ddeall effaith yr ymarfer gwrando a gwella'r broses o gynnwys teuluoedd yn y gwasanaeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnwys rhieni sydd â phrofiad o wasanaeth newyddenedigol Ysbyty'r Tywysog Siarl a sefydlu mecanweithiau i gasglu adborth ar brofiadau teuluoedd yn ystod y cyfnod pan fydd eu babanod yn derbyn gofal yn yr uned ac ar ôl hynny.</li> <li>• Adolygu a threfnu adborth teuluoedd yn ôl themâu a fformat adolygu defnyddiol.</li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>

	<b>Angen Gwella</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Safle</b>
<b>ESC. 12</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd wella diwylliant staff yr uned i sicrhau bod yr holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod pobl yn gwrando arnynt.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Meithrin tîm y Tîm Amlddisgyblaethol (gan gynnwys y tîm gwella) yn canolbwyntio ar weithio ar y cyd.</li> <li>• SIMS y Tîm Amlddisgyblaethol i barhau â thystiolaeth o gyfranogiad gan y tîm mamolaeth a newyddenedigol llawn.</li> <li>• Wedi ymgymryd ag arfer ymgysylltu â staff.</li> <li>• Cynnal arolwg Diwylliant Diogelwch er mwyn gallu dangos newid/gwelliant.</li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>
<b>ESC. 13</b>	Rhaid i hyb gwella'r Bwrdd lechyd a'r timau clinigol weithio gyda'i gilydd i ddeall y nod cyffredin o gael gwasanaeth sy'n fwy diogel.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i'r tîm gwella weithio i ymgysylltu'r tîm clinigol â'r daith tuag at wella.</li> <li>• Rhaid cefnogi'r tîm clinigol i gymryd perchnogaeth o'r gwasanaeth a deall ei rôl mewn gwelliannau.</li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>
<b>ESC. 14</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd gyflwyno strwythur archwilio clir i fonitro gwelliannau a dangos tystiolaeth o effeithiolrwydd y gwasanaeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cael system archwilio dan arweiniad clinigol sy'n nodi, blaenoriaethu, cynllunio, cynnal, monitro ac adolygu allbynnau archwilio ar draws y gwasanaeth.</li> <li>• Adolygiad a chyngor o'r System Archwilio gan NICU lleol (neu LNU arall).</li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>
<b>3.2</b>	Mae angen amser ychwanegol ar gyfer meddyg ymgynghorol er mwyn caniatáu ar gyfer patrwm meddyg ymgynghorol yr wythnos rhwng 09:00 a 17:00. Dylai pob meddyg ymgynghorol sy'n gweithio yn yr uned ar alwad gael o leiaf bedair wythnos o wasanaeth newyddenedigol y flwyddyn.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu'r gweithlu meddygol yn dilyn Uwchgyfeirio'r Adolygiad Manwl gyda'r cynllun gweithredu cysylltiedig.</li> </ul>	<b>Wedi'i Gyflawni</b>


	<b>Angen Gwella</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Safle</b>
<b>3.9</b>	Mae angen ehangu adnoddau fferyllwyr clinigol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer y gwasanaeth newyddenedigol, gan gynnwys y gallu i rwydweithio er mwyn datblygu arbenigedd ac arferion enghreifftiol yn yr Uned Babanod Newydd-anedig.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darpariaeth amser ddigonol ar gyfer adolygiad fferyllfa o fabanod yn yr uned babanod newydd-anedig a'r rhai sydd angen meddyginiaeth ar bresgripsiwn mewn meysydd eraill gan gynnwys babanod sy'n derbyn triniaeth ar y ward ôl-enedigol.</li> <li>• Neilltuo amser i fferyllwyr ar gyfer cefnogi addysg a hyfforddiant i'r holl staff sy'n ymwneud â phresgripsiynu a gweinyddu meddyginiaethau ym maes gofal newyddenedigol.</li> <li>• Neilltuo amser i fferyllwyr ar gyfer sicrhau ansawdd (e.e. archwilio) a chynlluniau gwella.</li> <li>• Fferyllfa'n goruchwyllo'r holl bresgripsiynau ni waeth am ba mor hir roeddent wedi aros yno.</li> <li>• Archwiliadau siartiau cyffuriau misol hyd yma.</li> <li>• Sicrhau bod mecanwaith cadarn ar waith sy'n cynnwys mewnbwn fferyllfa i holl adolygiadau Datix o'r gwallau presgripsiynu/ gweinyddu meddyginiaeth hyd yma.</li> <li>• Cyfraniad y fferyllfa i adolygiadau'r Tîm Amlddisgyblaeth o fabanod a drosglwyddwyd allan i gael gofal dwys hyd yma.</li> </ul>	<b>Wedi'i Gyflawni</b>
<b>5.1</b>	Rhaid i'r tîm clinigol sicrhau bod data yr Uned Babanod Newydd-anedig yn gyflawn ac yn gywir.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Uwch glinigwyr i adolygu data newyddenedigol i sicrhau y gellir rhoi sicrwydd mewnol i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau.</li> <li>• Dylai data newyddenedigol fod yn rhan o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, meddygon ymgynghorol, nyrsys i sicrhau bod y data sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaeth yn gywir ac yn cynnwys naratif priodol.</li> <li>• Mae rolau clir yn cael eu nodi gyda chyfrifoldeb dros sicrhau bod data yn gywir ac ar gael yn brydlon.</li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>

	<b>Angen Gwella</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Safle</b>
<b>7.1</b>	Rhaid i'r cyfathrebu â theuluoedd ar yr Uned Babanod Newydd-anedig fod yn amserol, yn agored, yn onest a rhaid cadw cofnod cynhwysfawr ohono.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid siarad â phob teulu cyn trosglwyddo'r baban i'r uned babanod newydd-anedig a dylid cofnodi hyn yn y nodiadau – os nad yw hyn yn bosibl oherwydd cyflwr y fam a'r ffaith nad oes aelodau o'r teulu ar gael, dylid cofnodi hyn yn glir.</li> <li>• Dylid cofnodi pob sgwrs gyda'r teulu yn glir ar ddalen ar wahân yn y nodiadau.</li> </ul>	<b>Gwaith ar y Gweill</b>
<b>7.6</b>	Rhaid gwella safonau dogfennau yn unol â gofynion y Cyngor Meddygol Cyffredinol/Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a rhaid i uwch-feddygon oruchwylio adroddiadau rhyddhau cleifion.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Safonau ar gyfer y dogfennau i'w cytuno yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol/Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.</li> <li>• Yr archwiliad o adroddiad rhyddhau'r claf i'w ddatblygu a'i gynnal gan uwch staff meddygol a'i adrodd yng nghanlyniadau'r archwiliad o ddogfennau.</li> <li>• Yn cynnal ac yn adrodd ar archwiliad o safonau dogfennau misol yn rheolaidd.</li> </ul>	<b>Wedi'i Gyflawni</b>

# 10 Atodiad D – Map y Bwrdd Iechyd ar gyfer Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol



# 11 Atodiad E – Amodau ar gyfer Cynaliadwyedd





## 12 Rhestr Termau

Talfyriad	Teler
<b>A&amp;E</b>	Adran Damweiniau ac Achosion Brys
<b>AMU</b>	Ochr yn ochr ag uned a arweinir gan fydwragedd
<b>ANNP</b>	Uwch-ymarferydd Nyrsio Newyddenedigol
<b>Apgar</b>	Dull sgorio a ddefnyddir i asesu cyflwr babi ar ei enedigaeth
<b>AW</b>	Archwilio Cymru
<b>Badgernet</b>	System rheoli data cleifion newyddenedigol
<b>BP</b>	Pwysedd gwaed
<b>BR+</b>	Birthrate plus
<b>CD</b>	Cyfarwyddwr Clinigol
<b>CEO</b>	Prif Swyddog Gweithredol
<b>CHC</b>	Cyngor Iechyd Cymuned
<b>CLC</b>	Gofal o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol
<b>CMB</b>	Cyfarfod bwrdd clinigol
<b>CMO</b>	Y Prif Swyddog Meddygol
<b>CNO</b>	Y Prif Swyddog Nyrsio
<b>COO</b>	Y Prif Swyddog Gweithredu
<b>CPAP</b>	Pwysedd positif parhaus yn y llwybr anadlu
<b>CPD</b>	Datblygiad proffesiynol parhaus
<b>CSfM</b>	Goruchwylwyr clinigol i fydwragedd
<b>CSR</b>	Cyfraddau toriad Cesaraidd
<b>CTG</b>	Cardiotocograffi
<b>CTMUHB</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
<b>CTUHB</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
<b>Datix</b>	Meddalwedd diogelwch cleifion
<b>DOM</b>	Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth
<b>DON</b>	Cyfarwyddwr Nyrsio
<b>DU</b>	Uned Gyflawni GIG Cymru
<b>EBC</b>	Each Baby Counts
<b>EFM</b>	Monitro'r ffetws yn electronig
<b>ELCS</b>	Toriad Cesaraidd dewisol
<b>EMCS</b>	Toriad Cesaraidd brys
<b>ETT</b>	Tiwb endotracheaidd
<b>Euroking</b>	System TG genedlaethol ar gyfer mamolaeth
<b>FGR</b>	Cyfyngiad o ran twf y ffetws
<b>FMU</b>	Uned Bydwreigiaeth Annibynnol
<b>GAP</b>	Protocol asesu twf
<b>GMC</b>	Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
<b>GP</b>	Meddyg Teulu

<b>Greatix</b>	Cynllun sy'n seiliedig ar 'Datix' ar gyfer rhannu adborth cadarnhaol â'r staff
<b>GROW</b>	Pwysau delfrydol yn ystod y beichiogrwydd
<b>HB</b>	Bwrdd Iechyd
<b>AaGIC</b>	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
<b>HIE</b>	Enseffalopathi isgemig hypocsig
<b>AGIC</b>	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
<b>Crwner EM</b>	Crwner Ei Mawrhydi
<b>HOM</b>	Pennaeth Bydwreigiaeth
<b>HOMAG</b>	Grŵp Cyngori Penaethiaid Bydwreigiaeth Cymru
<b>AD</b>	Adnoddau Dynol
<b>HSCSC</b>	Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
<b>HSIB</b>	Y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd
<b>HTA</b>	Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
<b>IA</b>	Clustfeinio Ysbeidiol
<b>ICU</b>	Uned Gofal Dwys
<b>ILG</b>	Grŵp Ardal Integredig
<b>IMSOP</b>	Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth
<b>IOL</b>	Dod â'r broses esgor yn ei blaen
<b>IPAAF</b>	Y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd
<b>IPPV</b>	Cymorth Anadlu Ysbeidiol gyda Phwysedd Positif
<b>DPA</b>	Dangosyddion perfformiad allweddol
<b>ALI</b>	Awdurdod Lleol
<b>LNU</b>	Uned leol ar gyfer babanod newydd-anedig
<b>LSA MO</b>	Swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod arolygu lleol
<b>LSCS</b>	Toriad Cesaraidd segment is
<b>MBRRACE</b>	Mamau a babanod: Lleihau risg drwy archwiliad ac ymholiadau cyfrinachol
<b>MDT</b>	Tîm amlddisgyblaethol
<b>MHSS</b>	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
<b>MID</b>	Y Cyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Mamolaeth
<b>MITs</b>	System Technoleg Gwybodaeth ar gyfer Mamolaeth (yn bwydo i mewn i QlikSense)
<b>MLC</b>	Gofal o dan arweiniad bydwragedd
<b>MLU</b>	Uned a arweinir gan fydwragedd
<b>MMMW</b>	My Maternity My Way (y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth wedi'i ailddatblygu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg)
<b>MNIB</b>	Y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol
<b>MNIP</b>	Y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol
<b>MNIT</b>	Y Tîm Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol
<b>MPB</b>	Y Bwrdd Perfformiad Mamolaeth
<b>AS</b>	Aelod o'r Senedd

<b>MSLC</b>	Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth
<b>MVF</b>	Fforwm Maternity Voices
<b>Llwybr NBC</b>	Llwybr Gofal Cenedlaethol ar gyfer Profedigaeth
<b>NEWTT</b>	Llwybr tracio a throthwy rhybudd cynnar ar gyfer y newydd-anedig
<b>NICU</b>	Uned gofal dwys i'r newydd-anedig
<b>NMC</b>	Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
<b>NMPA</b>	Archwiliad Mamolaeth ac Amenedigol Cenedlaethol
<b>NNAP</b>	Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol
<b>NUU</b>	Uned Babanod Newydd-anedig
<b>O2</b>	Ocsigen
<b>O&amp;G</b>	Obstetreg a Gynaecoleg
<b>OD</b>	Datblygu sefydliadol
<b>PADR</b>	Adolygiad arfarnu a datblygu personol
<b>PALS</b>	Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion
<b>PCH</b>	Ysbyty'r Tywysog Siarl
<b>PDM</b>	Bydwraig Datblygu Ymarfer
<b>PMRT</b>	Adnodd Adolygu Marwolaeth Amenedigol
<b>POW</b>	Ysbyty Tywysoges Cymru
<b>PREMs</b>	Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion
<b>PROMPT</b>	Hyfforddiant Aml-broffesiynol Ymarferol mewn Obstetreg
<b>PROMS</b>	Mesurau Adrodd ar Ganlyniadau Cleifion
<b>PSAG</b>	Cipolwg ar statws claf
<b>PSOW</b>	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
<b>PTR</b>	Gweithio i Wella
<b>Q&amp;SC</b>	Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
<b>QA</b>	Sicrhau ansawdd
<b>QlikSense</b>	Meddalwedd gwybodaeth a dadansoddeg weledol i fusnesau
<b>RCA</b>	Dadansoddiad o wraidd y broblem
<b>RCoA</b>	Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion
<b>RCM</b>	Coleg Brenhinol y Bydwreigedd
<b>RCOG</b>	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr
<b>RCPCH</b>	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
<b>RGH</b>	Ysbyty Brenhinol Morgannwg
<b>SANDS</b>	Cymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion
<b>SB</b>	Marw-enedigaethau
<b>SBAR</b>	Acronym Saesneg ar gyfer 'situation, background, assessment and recommendation'
<b>SCBU</b>	Uned gofal arbennig i fabanod
<b>SCU</b>	Uned gofal arbennig
<b>SFH</b>	Uchder y ffwdws symffysis
<b>SFSP</b>	Porth diogel i rannu ffeiliau
<b>SGA</b>	Bach ar gyfer oed y ffetws

<b>SI</b>	Digwyddiad difrifol
<b>SM</b>	Mesurau Arbennig
<b>CAMPUS</b>	Acronym ar gyfer Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol
<b>SOM</b>	Goruchwyliwr y bydwagedd
<b>SRO</b>	Uwch-swyddog Cyfrifol
<b>SWP</b>	Cynllun De Cymru
<b>TI</b>	Ymyriad wedi'i Dargedu
<b>Trac</b>	Cronfa ddata fawr yn y DU o 'hysbysfyrddau swyddi' ar gyfer y sector iechyd a'r sector cyhoeddus
<b>UHB</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol
<b>USS</b>	Sgan uwchsain
<b>WEEE</b>	Cyfarfodydd gweithredol sy'n ymwneud â'r Gweithlu, Effeithiolrwydd, Diogelwch a Phrofiadau ac Ymgysylltu
<b>WMNN</b>	Rhwydwaith Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru
<b>LIC</b>	Llywodraeth Cymru
<b>WRP</b>	Cronfa Risg Cymru

*DS, Mae'r Rhestr Termau yma'n un gyffredinol, ac mae'n cynnwys termau sydd wedi cael eu defnyddio yn adroddiadau'r Panel, neu a allai gael eu defnyddio ynddynt yn y dyfodol. Ni fydd pob un o'r termau o reidrwydd wedi cael eu defnyddio yn yr adroddiad penodol yma.*